COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 21 GORFFENNAF 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd KJ Watts – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | J Gebbie | T Giffard | RM Granville |
| CA Green | DG Howells | M Hughes | A Hussain |
| RM James | B Jones | M Jones | MJ Kearn |
| DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy | D Patel |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | JC Spanswick |
| RME Stirman | G Thomas | SR Vidal | MC Voisey |
| LM Walters | CA Webster | DBF White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SG Smith, T Thomas, JH Tildesley MBE, E Venables a/ac PJ White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Laura Griffiths | Prif Cyfreithiwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp Gwaith Integredig a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

552. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

553. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod Cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor yn cael eu cymeradwyo fel cofnodion gwir a chywir:-

Cyfarfod blynyddol – 19 Mai 2021
Cyfarfod cyffredin – 23 Mehefin 2021

554. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Mae cyfarfod arall o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i drefnu ar gyfer 9 Medi am 2.00pm. Cytunwyd ar hyn gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2021. Y rheswm dros ychwanegu'r cyfarfod hwn at y Rhaglen Cyfarfodydd yw i ddarparu

ar gyfer busnes a drefnwyd ar y Flaenraglen Waith, sydd angen ei ystyried cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2021

Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor ces y pleser o fod yn bresennol yn seremoni torri tir yr ysgol Gymraeg / cyfleuster gofal plant newydd yn Blackmill.

Bues hefyd yn agor siop flodau Joe’s yng Nghefn Cribwr (ac mae’n amlwg fy mod angen rhywfaint o ymarfer wrth dorri'r rhuban, gan iddi gymryd 3 ymgais i’w dorri, dwi'n beio’r siswrn a oedd yn rhy fach).

Ar ddydd Sul 27 Mehefin, pleser oedd treulio ychydig oriau yng ngerddi Cefn Cribwr ar eu diwrnod agored blynyddol. Roedd rhai arddangosfeydd syfrdanol i’w gweld a buom yn lwcus gyda’r tywydd hefyd. Digwyddiad gwych ac un na ddylid ei golli, yn enwedig os ydych yn hoffi edrych ar sut y dylai gardd rhywun edrych. Nes ymlaen y diwrnod hwnnw aethom i ymweld â phreswylydd mewn cartref gofal ym Maesteg a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 101 oed, ac mi wn i’r Dirprwy Faer ymweld â phreswylydd arall yn yr un cartref a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed yr wythnos ganlynol.

Ar 28 Mehefin cefais wahoddiad i ymuno â Llysgennad Gwlad Pwyl ar ei ymweliad ag amgueddfa Porthcawl a beddau rhyfel 5 o filwyr Pwylaidd a laddwyd yn yr Ail Ryfel Byd ac a gladdwyd ym Mynwent Porthcawl. Profiad dirdynnol iawn oedd mynd â'r Llysgennad i ddangos ein parch, a gosododd dorch ar bob un o'r beddau. Os nad ydych wedi ymweld ag amgueddfa Porthcawl yna awgrymaf eich bod yn mynd, er ei bod yn edrych yn fach o’r tu allan y mae, fel y Tardis, yn teimlo’n fwy y tu mewn, ac mae yno gasgliadau difyr a gwybodaeth am ein hardal leol.

Yr ymweliad diweddaraf i mi ei wneud y mis hwn oedd i Warchodfa Natur Cynffig fel rhan o’u Diwrnod Agored, a gwych oedd gweld sut mae'r ymddiriedolwyr wedi dechrau gwneud y ganolfan ymwelwyr yn fwy cynaliadwy, ac mae ganddynt gynlluniau ar gyfer y dyfodol i ddarparu caffi dan do sydd â golygfa o’r warchodfa. Gwych oedd gweld y rhan bwysig hon o’n Bwrdeistref Sirol mewn dwylo diogel, a chyda dyfodol llewyrchus o’i flaen.

Yn olaf, ychydig eiriau am gronfa elusen y Maer. Er nad oes Pwyllgor Elusen y Maer mwyach, mae fy ngwraig a minnau'n bwriadu ceisio casglu cymaint ag y gallwn i Lads & Dads a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr. Felly ar ddydd Sadwrn 14 Awst bydd fy ngwraig Susan (Y Faeres) yn plymio ar y cyd o uchder o 12,000 troedfedd ym maes awyr Abertawe. Rwyf wedi sefydlu tudalen Go Fund Me lle gellir gwneud rhoddion ac mae hefyd yn bosibl gwneud rhodd ar wefan CBSP drwy fynd i dudalen y Maer. Bydd pob rhodd yn mynd i'r grwpiau a grybwyllir ac ni fydd ceiniog yn cael ei gwario ar gost y digwyddiad ei hun gan ein bod yn ariannu hynny ein hunain.

Bydd digwyddiadau eraill a raffl Nadolig gobeithio, ac mae Her 3 Chopa Cymru, efallai fy mod i wedi ei chrybwyll yn gynharach, yn debygol o ddigwydd ddechrau mis Ebrill 2022, ac rwy’n tybio y bydd rhai Cynghorwyr angen ychydig o anogaeth i gymryd rhan efallai, ac i wisgo eu hesgidiau cerdded ac ymarfer ychydig dros fisoedd y gaeaf.

Dirprwy Arweinydd

Mae'r paratoadau terfynol yn cael eu gwneud yn Ystâd Ddiwydiannol Village Farm yn y Pîl ar gyfer y ganolfan ailgylchu gymunedol newydd.

Mi es, ynghyd â chyd aelodau’r Cabinet ac aelodau lleol, i ymweld â'r safle'r wythnos diwethaf i gael cipolwg ar yr hyn y mae'n mynd i'w gynnig, a rhaid dweud iddo wneud argraff fawr arnaf.

Mae’r dyluniad wedi’i rannu’n lefelau gwahanol, a bydd gyrwyr yn gallu dilyn system unffordd syml o amgylch y ganolfan newydd.

Byddant yn gallu dewis a ydynt am fynd i’r mannau parcio a’r sgipiau ailgylchu ar lefel y ddaear, neu ddefnyddio lonydd a rampiau osgoi sy'n arwain at y sgipiau ochrau uchel ar y lefel uchaf.

Mae gan y safle ganopi pob tywydd ar y lefel uwch, bolardiau hyblyg i helpu i arwain gyrwyr ac i atal difrod damweiniol i gerbydau, goleuadau sy'n cael eu pweru gan baneli solar ar y safle, a mannau parcio gwastad heb ymylon i wella diogelwch a chael gwared ar beryglon baglu posibl i bobl sy'n cario gwastraff o'u ceir.

Mae lle i hyd at 24 o gerbydau ar y tro, ac mae gan y ganolfan ailgylchu newydd gapasiti ciwio ar y safle ar gyfer 72 cerbyd arall, ac mae cynlluniau ar y gweill i greu 'siop ailddefnyddio ar y safle.

Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, amlinellais sut mae gwaith hefyd yn cael ei wneud wrth y fynedfa i Ystâd Ddiwydiannol Village Farn er mwyn lleddfu tagfeydd a hwyluso llif y traffig.

Bydd hyn yn arwain at greu lôn droi bwrpasol newydd o'r A48 i Heol Mostyn, goleuadau traffig newydd, ac ynys groesi ddiogel newydd.

Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau i'r gyffordd a'r ganolfan ailgylchu newydd yn cynrychioli buddsoddiad o £2.3m sy'n mynd i helpu miloedd o aelwydydd i ailgylchu hyd yn oed mwy o'u gwastraff.

<u>Aelod Cabinet – Cymunedau</u>

Mae ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn parhau a deallaf fod yr adroddiad drafft ar yr ymgysylltu hwn eisoes yn fwy nag 800 tudalen o hyd.

Mae hyn yn newyddion da gan ein bod yn annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan ac i ddweud eu dweud, a byddwn yn parhau i wneud hynny hyd at y dyddiad cau, sef dydd Mawrth 27 Gorffennaf.

Bydd y cynllun, wrth gwrs, yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa fathau o ddatblygiadau y gellir eu datblygu ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng nawr a 2033, felly mae'n bwysig i bobl fod yn ymwybodol o'i gwmpas pellgyrhaeddol.

Rydym am i breswylwyr ddeall sut, unwaith y caiff ei gwblhau, y bydd yn nodi sut y gellir defnyddio tir, a pha rannau o'r fwrdeistref sirol sydd i’w cadw fel mannau agored neu sydd wedi'u dynodi ar gyfer dibenion preswyl, cyflogaeth, manwerthu, gwastraff, datblygu mwynau, cymunedol a thwristiaeth.

Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau bod digon o gartrefi newydd i ddiwallu anghenion cymunedau sy'n tyfu tra hefyd yn darparu seilwaith a chyfleusterau newydd, yn ogystal â denu buddsoddiad economaidd newydd i'r ardal.

Ei nod yw cefnogi creu 5,000 o swyddi ychwanegol, darparu datblygiadau newydd ac adfywio ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pencoed, Maesteg, Y Pîl a Phorthcawl, a sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu neu wella amgylcheddau lle gall pobl, cymunedau, busnesau a natur ffynnu.

Mae gwefan y cyngor yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y gallwch gymryd rhan a pha fformatau amgen sydd ar gael, ac mae copïau hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd lleol.

Gobeithiaf y bydd aelodau'n annog eu hetholwyr i edrych arno'n fanylach, ac i drosglwyddo eu barn fel y gallwn eu hystyried a chytuno ar ddrafft terfynol.

Aelod Cabinet – Gwasanaeth Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Yng nghyfarfod y Cyngor fis Rhagfyr diwethaf, diweddarais yr aelodau ar sut yr oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn wynebu risgiau uwch o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws, ac amlinellais y camau a oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'i effaith.

Mae arnaf ofn bod yn rhaid imi gynghori aelodau bod y sefyllfa'n parhau i fod yn ddifrifol iawn, ac nad yw wedi'i chyfyngu i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu hadolygu, eu blaenoriaethu a'u cydgysylltu'n rheolaidd ar lefel cyfarwyddwr a phenaethiaid gwasanaeth.

Mae ein meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth yn cwmpasu gofal cymdeithasol i oedolion a phlant, ac yn cynnwys diogelu, gofalu am y rhai sydd fwyaf agored i niwed, asesiadau iechyd meddwl, rheoli achosion ar gyfer plant sy'n agored i niwed, gofal preswyl, gwasanaethau dydd, gofal seibiant, a gwasanaethau sy'n cefnogi maethu.

Fodd bynnag, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar fod gwasanaethau fel ail-alluogi a gofal cartref yn wynebu heriau penodol o ran eu gallu i ymateb i'r galw a ragwelir.

Yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yr ydym bellach yn darparu 640 awr yr wythnos yn fwy nag a wnaethom ym mis Ebrill 2020, ac yr ydym yn derbyn ceisiadau cynyddol i ymestyn pecynnau gofal sy'n bodoli eisoes.

Y perygl yr ydym am ei osgoi yw bod pobl yn cael eu gorfodi i ddisgwyl nes bydd pecyn gofal yn dod ar gael iddynt.

Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu gan ffactorau fel unigolion nad ydynt am geisio triniaeth neu fynd i'r ysbyty, aelodau o'r teulu yn methu â gofalu amdanynt fel y gallent o’r blaen, mwy o faterion ynysu cymdeithasol o ganlyniad i aros gartref, a mwy.

Realiti'r sefyllfa yw bod y lefel hon o alw yn debygol o fodoli trwy’r tymor canolig a'r tymor hwy.

Fel rhan o'n hymateb, mae grŵp gorchwyl lefel efydd ar waith, ac mae'n gweithio drwy'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

Rydym yn archwilio cyfleoedd gyda'n partneriaid yng Nghwm Taf ar brosesau recriwtio cydgysylltiedig, ac rydym yn archwilio'r defnydd o weithwyr asiantaeth yn ogystal â sut y gallwn gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol.

Bydd adolygiad o bobl o fewn y gwasanaeth presennol a matrics adnoddau ar waith ac, yn ogystal â hyn, byddwn yn edrych ar gyfleoedd gwag mewn cartrefi gofal.

Rydym hefyd yn gweithio i ddenu unigolion sydd am gael profiad yn y sector gofal drwy broses recriwtio.

Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn gofyn i’r aelodau helpu i'w hyrwyddo o fewn eu wardiau lleol, ac i gyfeirio pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith tuag at wasanaethau darparwyr.

Ein nod bob amser fydd gweithio gyda phobl a theuluoedd a blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf, yn y gymuned ac mewn ysbytai.

Fodd bynnag, dylem hefyd gydnabod y gallai'r sefyllfa bresennol arwain at gynnydd yn nifer y cwynion ynghylch y gallu i ddiwallu anghenion asesedig unigolyn.

Yn y cyfamser, mae staff yn parhau i ddangos eu hymroddiad a'u penderfynoldeb arferol, a hoffwn eu cydnabod a diolch iddynt unwaith eto am eu holl ymdrechion.

Mae'r sefyllfa'n parhau i allu newid yn gyflym, a byddaf yn rhoi diweddariadau pellach i chi wrth i'r pandemig barhau.

<u>Aelod Cabinet – Cenedlaethau’r Dyfodol a Lles</u>

Bydd cronfa newydd gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi tenantiaid tai sy'n rhentu'n breifat, ac a allai fod ar ei hôl hi ar eu taliadau rhent.

Mae Grant Caledi i Denantiaid gwerth £10m wedi'i gynllunio i atal pobl rhag colli eu tenantiaethau pe baent ar ei hôl hi o fwy nag wyth wythnos yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2020 a Mehefin 2021.

Gallai’r ôl-ddyledion rhent fod o ganlyniad i golli incwm oherwydd ffyrlo pandemig, gostyngiad yn y gwaith, neu oherwydd mai dim ond pan oeddent â Covid-19 y gallent hawlio Tâl Salwch Statudol.

Mae'r grant yn agored i bobl nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai, ac mae’n cymryd lle’r Benthyciad Arbed Tenantiaeth a gyflwynwyd ym mis Hydref 2020.

Bydd unrhyw fenthyciad a roddwyd fel rhan o'r cynllun hwnnw yn cael ei droi'n grant.

Dylai unrhyw un sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent gysylltu â'u landlord neu asiant a sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth a Shelter Cymru cyn gynted â phosibl i sicrhau eu bod yn gallu cael y cyngor a'r cymorth cywir.

I wneud cais am Grant Caledi i Denantiaid, dylid anfon e-bost at Housing At Bridgend Dot Gov Dot UK a nodi ‘THG Support Grant’ fel pwnc yr e-bost.

Mae rhagor o fanylion am y grant a chymhwysedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

<u>Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio</u>

Rwy'n siŵr y bydd yr aelodau am ymuno â mi i longyfarch Ysgol Gyfun Bryntirion, yr ysgol gyntaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i dderbyn gwobr am ei hymdrechion i gefnogi awtistiaeth.

Mae'r ysgol wedi treulio'r ddwy flynedd ddiwethaf yn gwella ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith athrawon, disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, ac mae Awtistiaeth Cymru wedi cydnabod eu hymdrechion gyda Gwobr Ysgol Uwchradd Dysgu gydag Awtistiaeth.

Mae hyn yn gydnabyddiaeth briodol i'r gwaith caled a'r ymdrech y mae pawb yn Ysgol Gyfun Bryntirion wedi'i wneud, a'u brwdfrydedd dros sicrhau y gall plant ag awtistiaeth gael y profiad ysgol gorau posibl.

Hoffwn hefyd sicrhau bod aelodau'n ymwybodol, unwaith y bydd ysgolion yn cau ar gyfer gwyliau'r haf, y bydd ystod eang o weithgareddau am ddim ar gael i blant a phobl ifanc eu mwynhau fel rhan o raglen Haf o Hwyl eleni.

Bydd y cynllun Heini am Oes yn cynnig chwaraeon, gemau a chelfyddydau creadigol i blant rhwng wyth ac 11 oed, tra bod yr Urdd yn darparu gwersylloedd chwaraeon dwyieithog i roi cyfle i blant rhwng tair ac 11 oed roi cynnig ar chwaraeon tîm a gemau yn seiliedig ar rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a mwy.

Bydd gwirfoddolwyr llysgenhadon ifanc yn darparu 21 o bethau i'w gwneud yn rhaglen haf '21 sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n amrywio o syllu ar y sêr i wneud den, ac mewn llyfrgelloedd lleol bydd plant yn gallu cymryd rhan yn her ddarllen haf 'Arwyr y Byd Gwyllt' ar thema natur.

Mae Parc Gwledig Bryngarw, Menter Bro Ogwr a Halo Leisure hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau, a bydd y manylion llawn yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Efallai bydd capasiti cyfyngedig gan rai o'r sesiynau oherwydd y pandemig coronafeirws, felly pan fo angen archebu ymlaen llaw efallai dylech gynghori etholwyr i wneud hynny cyn gynted â phosibl.

555. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Mae'r newidiadau diweddaraf i gyfyngiadau'r pandemig wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru a daeth y mwyafrif i rym ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ddydd Sadwrn 17 Gorffennaf.

Er y bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol ym mhob ardal gyhoeddus dan do ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, bydd lleoliadau addysgol a lletygarwch yn cael eu heithrio.

Bydd hyd at chwech o bobl yn gallu cwrdd dan do mewn cartrefi preifat ac mewn llety gwyliau, ac ni fydd terfyn mwyach ar faint sy'n gallu ymgynnull yn yr awyr agored.

Erbyn hyn, mae gan safleoedd a digwyddiadau awyr agored fwy o hyblygrwydd o ran cadw pellter corfforol, a bydd modd cynnal digwyddiadau dan do wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 1,000 o bobl os ydynt yn eistedd a 200 o bobl os ydynt yn sefyll.

Mae'r cyfyngiad blaenorol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n mynychu digwyddiadau i eistedd er mwyn bwyta bwyd a diod wedi'i ddiddymu.

Mewn newidiadau eraill, gall hyd at 30 o blant o sefydliadau fel y Brownies a'r Sgowtiaid fynychu canolfannau preswyl dros wyliau'r haf, a bydd yn ofynnol i fusnesau rannu gwybodaeth â'u staff am y manylion risg a lliniaru sydd yn eu cynlluniau asesu risg Covid-19 unigol.

Nid oes angen i oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn a phobl dan 18 oed hunanynysu wrth ddychwelyd o wledydd rhestr ambr, ond dylid tynnu sylw hefyd at y ffaith mai'r cyngor swyddogol yw osgoi teithio tramor nad yw'n hanfodol ac i gymryd gwyliau yn lleol yr haf hwn.

Er bod y newidiadau'n cael eu croesawu, rhaid inni gofio hefyd fod achosion o'r coronafeirws ar gynnydd, yn enwedig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn enwedig ymhlith pobl 25 oed ac iau.

Mae Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi rhybuddio bod achosion ysbyty oherwydd achosion o Covid 19 wedi codi eto dros y dyddiau diwethaf. Nid yw'r capasiti wrth gefn a fodolai yn ystod yr ail don yno mwyach. Mae'r GIG bellach yn ceisio cael cymaint o bobl â materion iechyd eraill, achosion sydd wedi cronni trwy'r pandemig, yn ôl i dderbyn triniaeth. Mae angen i ni gymryd rhagofalon o hyd a gweithredu fel un gymuned unedig er mwyn amddiffyn eraill rhag y risg o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Mae cyfraddau brechu lleol yn parhau'n uchel iawn, gyda bron i 83,000 o drigolion bellach wedi derbyn dau ddos y brechlyn, ond mae'n parhau'n hanfodol bwysig i bawb gyfrannu a gwneud eu rhan i amddiffyn eraill.

Yn dibynnu ar sut mae'r sefyllfa'n newid rhwng nawr a'r adeg honno, gallai'r adolygiad pandemig nesaf gan Lywodraeth Cymru ein gweld yn symud o lefel rhybudd un i lefel rhybudd sero.

Byddwn yn gwybod mwy am hyn pan gyhoeddir canlyniadau'r adolygiad fis nesaf ac wrth gwrs byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, mewn llawer o'n cymunedau lleol, fod y mater o gynnal a chadw parhaus ar strydoedd nad yw'r cyngor wedi'u mabwysiadu yn parhau i fod yn destun pryder.

Efallai bod hynny oll ar fin newid diolch i fenter newydd gan Lywodraeth Cymru sydd am gael ei threialu yma ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Gan ddefnyddio canlyniadau arolwg blaenorol, penderfynwyd mai Ynyslas ym Mhorthcawl fydd yn elwa o'r gwaith o wella strydoedd i'r safon sy'n ofynnol er mwyn iddi gael ei mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.

Bydd y cynllun yn cynnwys ailadeiladu llwybrau troed a cherbytffyrdd, cynnal arolygon, atgyweirio draeniad priffyrdd lle bo angen, a gwneud gwaith cysylltiedig arall.

Mae cynllun peilot gwerth £230,000 wedi'i gynllunio i roi gwell dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o'r goblygiadau o ran costau ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad hanesyddol o strydoedd o'r fath ledled Cymru.

Y gobaith yw y bydd y gwaith yn dechrau yn ystod yr haf neu'r hydref eleni gyda'r nod o gwblhau'r broses erbyn mis Mawrth 2022.

Os bydd yn llwyddiannus, gallai arwain at wella rhagor o strydoedd sydd heb eu mabwysiadu fel bo modd i'r Cyngor eu mabwysiadu a'u cynnal a'u cadw yn y dyfodol, rhywbeth a fydd o fudd i lawer o drigolion lleol.

Yn olaf, efallai fod Aelodau wedi gweld sylw yn y cyfryngau am gyhoeddiad WRW Construction y byddent yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

Mae hyn, wrth gwrs, yn newyddion siomedig iawn, ond yr wyf am dynnu sylw at y ffaith nad dyma'r tro cyntaf i gwmni adeiladu o'r fath gael ei ddiddymu, ac nad yw'n cyflwyno problemau anorchfygol i ni.

Y datblygiad lleol mwyaf amlwg y mae hyn yn effeithio arno yw Sunnyside Wellness Village, sy'n cael ei arwain gan Linc Cymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mewn mannau eraill yn y Fwrdeistref Sirol, roedd WRW yn rhan o ddatblygiad y ganolfan blant ym Mrynmenyn, a'r cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg a gynlluniwyd ar gyfer Blackmill.

Er ei bod yn anochel y bydd hyn yn effeithio ar amserlenni'r prosiectau hyn, rydym yn parhau i fod yn hyderus y bydd contractwr arall o ansawdd uchel yn cael ei gadarnhau cyn bo hir, ac y bydd y datblygiadau'n dal i gael eu cyflawni er budd trigolion lleol.

Wrth gwrs, byddwn yn gweithio i sicrhau cyn lleied o amhariad ag sy'n bosibl, a byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r sefyllfa, a byddwn yn rhannu diweddariadau pellach gyda'r Aelodau pan fydd y rhain yn datblygu.

556. ADOLYGIAD O DARGEDAU'R CYNLLUN CORFFORAETHOL AR GYFER 2021-22 YN DILYN EFFAITH COVID-19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i dargedau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-22, fel yr amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad a chadarnhaodd, fel rhan o'r broses gymeradwyo ar gyfer y Cynllun Corfforaethol wedi'i adnewyddu, y cydnabuwyd bod COVID-19 wedi cael effaith ar gylch cynllunio CBSP, gan ei gwneud yn fwy heriol i osod targedau ar gyfer 2021-22. Cytunodd y Cyngor felly fod angen dull hyblyg o bennu targedau cynlluniau corfforaethol er mwyn sicrhau bod cynllunio busnes yn gadarn ac yn effeithiol.

Fel rhan o gynllunio adfer COVID-19 CBSP, cafodd pob cyfarwyddiaeth gyfle i ystyried targedau ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar ddata diwedd blwyddyn sydd wedi'i ddilysu. Ystyriwyd newidiadau arfaethedig i dargedau yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol (COSC) ar 5 Gorffennaf 2021 i sicrhau her a thryloywder priodol.

Ar 20 Gorffennaf 2021, ystyriodd y Cabinet y newidiadau arfaethedig i dargedau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-22. Mae Atodiad A i'r adroddiad yn nodi'r newidiadau targed arfaethedig, a chaiff ei gyhoeddi fel atodiad i'r Cynllun Corfforaethol presennol.

Fel rhan o adolygiad ehangach o berfformiad a llywodraethu oherwydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd y Cyngor yn cynnig bod cynllunio corfforaethol yn mabwysiadu'r dull hwn o osod targedau mewn cylchoedd cynllunio yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun corfforaethol cyhoeddedig yn parhau i fod yn gyfredol â'r data diwedd blwyddyn diweddaraf, ac yn osgoi cyhoeddi cynllun corfforaethol heb dargedau oherwydd diffyg data.

PENDERFYNIAD: (1) Fod y Cyngor yn cymeradwyo targedau diwygiedig y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-2022.

(2) Fod y Cyngor hefyd yn cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno proses hyblyg i adolygu'r broses o bennu targedau gan ystyried data diwedd blwyddyn. Bydd unrhyw dargedau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi fel atodiad i'r Cynllun Corfforaethol wedyn.

557. ALLDRO'R RHAGLEN GYFALAF 2020/21 AC ADRODDIAD DIWEDDARU CHWARTER 1 2021-22

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd:-

• cydymffurfio â gofyniad 'Y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (argraffiad 2017)' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)
• rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr alldro cyfalaf ar gyfer 2020-21 (Atodiad A i'r adroddiad)
• rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfalaf ar gyfer 2021-22 ar 30 Mehefin 2021 (Atodiad B)
• ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021-22 i 2030-31 (Atodiad C)
• nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill a ragwelir ar gyfer 2021-22 (Atodiad D)

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21. Roedd y gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Chwefror 2020 wedi'i diwygio a'i chymeradwyo ymhellach gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ymgorffori cyllidebau a gyflwynwyd o 2019-20 ac unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. Cyfanswm y rhaglen ddiweddaraf ar gyfer 2020-21, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, oedd £35.440 miliwn, gyda £12.419 miliwn ohono yn dod o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o fenthyca a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gyda'r £23.021 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol.

Rhoddodd Atodiad A fanylion y cynlluniau unigol o fewn y rhaglen gyfalaf, gan ddangos y gyllideb a oedd ar gael yn 2020-21 o'i gymharu â'r gwariant gwirioneddol. Dim ond ym mis Chwefror 2021 y cymeradwywyd y rhaglen ddiwygiedig, felly ychydig o welliannau a wnaed ers hynny ac eithrio'r prif newidiadau a amlinellir ym mharagraff 4.1.2 o'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid mai cyfanswm y gwariant ar 31 Mawrth 2021 oedd £23.461 miliwn a oedd, ar ôl £14.376 miliwn o lithriant i 2021-22 ac £0.842 miliwn o addasiadau i gynlluniau a ariannwyd gan grantiau, wedi arwain at gyfanswm o £0.139 miliwn a fydd yn cael ei ddychwelyd i gyllid y Cyngor.

Roedd angen llithriant net o £14.058 miliwn i 2021-22, ar gyfer y prif gynlluniau fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1.4 o'r adroddiad.

Rhoddodd adran nesaf yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2021-22 ers i'r gyllideb gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor ac ymgorffori unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. O ran y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2021-22, sef cyfanswm o £87.347 miliwn ar hyn o bryd, y mae £53.067 miliwn ohono'n cael ei dalu o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o fenthyca a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gyda'r £34.280 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys Grant Cyfalaf Cyffredinol. Roedd Tabl 1 yr adroddiad yn dangos y rhaglen gyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth o'r safle Cyngor a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2021 hyd chwarter 1.

Yna, crynhodd Tabl 2 yn yr adroddiad y tybiaethau ariannu presennol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021-22. Rheolir yr adnoddau cyfalaf i sicrhau bod y budd ariannol

mwyaf posibl i'r Cyngor yn cael ei wireddu. Gall hyn gynnwys adlinio cyllid i wneud y mwyaf o grantiau'r llywodraeth.

Rhoddodd Atodiad B fanylion y cynlluniau unigol o fewn y rhaglen gyfalaf, gan ddangos y gyllideb a oedd ar gael yn 2021-22 o'i gymharu â'r gwariant a ragwelir ar 30 Mehefin 2021.

Bu nifer o welliannau i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021-22 ers i'r rhaglen gyfalaf gael ei chymeradwyo ddiwethaf, megis cynlluniau newydd a diwygiedig,. Manylwyd ar y rhain ym mharagraff 4.2.4 o'r adroddiad.

Roedd adrannau olaf yr adroddiad yn canolbwyntio ar Ddangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill 2021-22 Monitro Strategaeth a Strategaeth Gyfalaf, a rhoddodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, grynodeb o'r rhain er budd y Cyngor.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:

1. Nodi yr alldro cyfalaf ar gyfer 2020-21 (Atodiad A i'r adroddiad)
2. Nodi diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2021-22 hyd at 30 Mehefin 2021 (Atodiad B)
3. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad C)
4. Nodi y Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill a ragwelir ar gyfer 2021-22 (Atodiad D)

558. ALLDRO RHEOLI BLYNYDDOL Y TRYSORLYS 2020/21

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, er mwyn:-

- Cydymffurfio â gofyniad 'Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' (y Cod) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i roi adroddiad trosolwg o weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol; a
- Adrodd ar Ddangosyddion Rheoli gwirioneddol y Trysorlys ar gyfer 2020-21.

Er gwybodaeth gefndir, cadarnhaodd mai Rheoli Trysorlys yw'r gwaith o reoli llif arian parod, benthyca, a buddsoddiadau'r Cyngor, yn ogystal â'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Cyngor yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Felly, mae nodi, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus yn rhan ganolog o reolaeth ariannol ddarbodus gan y Cyngor.

Cynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor yw Arlingclose. Mae'r gwasanaethau a ddarperir i'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnwys:-

- cyngor ac arweiniad ar bolisïau, strategaethau ac adroddiadau perthnasol
- cyngor ar benderfyniadau buddsoddi
- hysbysiad o sgoriau credyd a newidiadau
- gwybodaeth arall am ansawdd credyd
- cyngor ar benderfyniadau rheoli dyledion
- cyngor cyfrifyddu
- adroddiadau ar berfformiad y trysorlys
- rhagolygon o gyfraddau llog
- cyrsiau hyfforddi

O ran cyd-destun economaidd (yr adroddiad), cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod dylanwad y pandemig coronafeirws wedi bod yn drwm ar 2020-21, gan arwain at gyfyngiadau symud byd eang yn ystod y flwyddyn. Cafodd hyn effaith andwyol ar gyllid ac ar gyfraddau llog yn enwedig, gan gynnwys cyfraddau llog y Cyngor. Roedd hyn hefyd wedi'i ddwysáu gan yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweinyddu nifer o Gynlluniau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys talu dros 2,400 o Grantiau Ardrethi Busnes i fusnesau ac elusennau, gyda gwerth o dros £30 miliwn; dros 1,700 o Grantiau Cyfyngiadau â chyfanswm o ychydig dros £5.4 miliwn; a 4500 o Grantiau Cyfyngiadau i Fusnesau â gwerth o £14.96 miliwn, yn ogystal ag ysgwyddo’r costau o roi cymorth ychwanegol angenrheidiol drwy gydol y pandemig cyn iddynt dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlwg bod hyn wedi cael effaith ar lif arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn, a bu'n rhaid rhoi mesurau ar waith i reoli'r symiau sylweddol o arian sy'n llifo i mewn ac allan o gyfrif banc y Cyngor, gan gynnwys derbyn taliadau cynharach o'r Grant Cynnal Refeniw a thaliadau grant busnes interim gan Lywodraeth Cymru, gwneud blaendaliadau tymor byr nes bod angen cyllid, a chynyddu ein terfynau BACS dyddiol i alluogi prosesu mwy o daliadau yn gyflym.

O ran Alldro Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020-21, roedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoliadol yn ystod 2020-21. Cafodd TMS 2020-21 a'r Adroddiad Hanner Blwyddyn eu hadrodd i’r Cyngor ar 26 Chwefror 2020 a 18 Tachwedd 2020, yn y drefn honno. Ychwanegodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod adroddiadau monitro chwarterol wedi’u cyflwyno i'r Cabinet yn ystod 2020-21 hefyd.

Dangoswyd crynodeb o weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2020-21 yn Atodiad A i'r adroddiad. Dangoswyd sefyllfa ddyled a buddsoddi allanol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 yn Nhabl 1 yr adroddiad, a darparwyd mwy o fanylion yn Atodiad A adran 2, Strategaeth Benthyca ac Alldro, ac adran 3, Strategaeth Fuddsoddi ac Alldro. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau hirdymor yn 2020-21 ac ni aildrefnwyd unrhyw ddyledion gan nad oedd unrhyw arbedion sylweddol i'w gwneud. Fodd bynnag, bydd y portffolio benthyciadau yn cael ei adolygu yn ystod 2021-22. Mae llifau arian parod ffafriol wedi darparu arian dros ben ar gyfer buddsoddi, a'r balans ar fuddsoddiadau ar 31 Mawrth 2021 oedd £51.5 miliwn, gyda chyfradd llog gyfartalog o 0.21%.

Roedd Tabl 2 yn Atodiad A yn manylu ar symudiad buddsoddiadau yn ôl mathau parti i gontract, ac yn dangos y balansau cyfartalog, y llog a dderbyniwyd, y cyfnod gwreiddiol a'r cyfraddau llog ar gyfer 2020-21.

Mae'r Cyngor yn diffinio ansawdd credyd uchel fel sefydliadau a gwarantau sydd â statws credyd o A- (A3 ar gyfer Moody) neu'n uwch, ac ni fuddsoddodd y Cyngor mewn unrhyw sefydliad o dan y lefel hon. Roedd Atodiad B yr adroddiad yn dangos y tabl cyfatebol ar gyfer sgoriau credyd Fitch, Moody, a Standard & Poor, gan egluro’r gwahanol raddau buddsoddi.

Nid oedd unrhyw fuddsoddiadau hirdymor (hyd gwreiddiol o 12 mis neu fwy) yn ddyledus ar 31 Mawrth 2021. Roedd yr holl fuddsoddiadau ar 31 Mawrth 2021 yn adneuon tymor byr, gan gynnwys cyfrifon mynediad a rhybudd ar unwaith.

Mae'r Cod Rheoli Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod ac adrodd ar nifer o Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys. Mae'r dangosyddion naill ai'n crynhoi'r gweithgaredd disgwyliedig neu'n cyflwyno terfynau ar y gweithgaredd. Dangoswyd manylion yr amcangyfrifon ar gyfer 2020-21 a nodir yn TMS y Cyngor, o'i gymharu â'r union werthoedd ar ddiwedd y flwyddyn, yn adran 4 yn Atodiad A, ac roedd y rhain yn adlewyrchu bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r terfynau cymeradwy.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:

1. Cymeradwyo gweithgareddau rheoli blynyddol y trysorlys ar gyfer 2020-21.

2. Rhoi cymeradwyaeth ymhellach ddangosyddion rheoli gwirioneddol y Trysorlys ar gyfer 2020-21 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020-21.

559. STRATEGAETH DYSGU A DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i'r Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig sydd ynghlwm wrth yr adroddiad eglurhaol yn Atodiad 1.

Y Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig oedd yn gosod y fframwaith i'r ddarpariaeth Datblygu Aelodau ar gyfer Aelodau Etholedig, o'r cyfnod ymsefydlu a thrwy gydol eu cyfnod yn y swydd. Roedd y Strategaeth yn dod tua diwedd ei hoes effeithiol, ac wrth baratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 a chyfnod sefydlu'r Aelodau newydd yn sgil hynny, cynhaliwyd adolygiad bwrdd gwaith o'r Strategaeth i sicrhau ei bod yn addas i'r diben ac mae wedi'i diweddaru i adlewyrchu nifer o ffactorau sydd wedi newid ers cymeradwyo'r Strategaeth wreiddiol.

Rhannwyd y Strategaeth yn 5 cam, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl yr etholiad mae'r gweithgareddau datblygu aelodau ar gyfer darparu gwybodaeth a datblygu prosesau yn bennaf, a dylent gael eu cynnal yn fewnol neu gan sefydliadau priodol fel CLlLC. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bydd ffocws y ddarpariaeth datblygu aelodau yn symud at ddarpariaeth o bynciau manwl ehangach ar lefel leol, a mwy o bynciau sy'n ymwneud â materion rhanbarthol a chenedlaethol. Ychwanegodd y Swyddog Monitro y byddai cyfleoedd hyfforddi pellach i Aelodau ar gael drwy gydol eu cyfnod yn y swydd er mwyn gwella eu datblygiad, a hynny trwy bynciau awgrymedig a ddeilliodd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb Datblygu Aelodau ac unrhyw werthusiad o'r Strategaeth a gynhelir.

Cynigiwyd y dylid cynnwys mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau e-ddysgu yn y rhaglen datblygu aelodau, drwy'r dulliau a awgrymir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

560. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynodd Arweinydd Grŵp y Gynghrair Annibynnol adroddiad ar ran y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn i'r Aelodau dderbyn a nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y cyfnod Rhwng Mai 2020 a Mai 2021. Amlinellodd yr adroddiad waith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw.

Eglurodd fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Mesur yn rhagnodi swyddogaethau'r pwyllgor ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Cyngor. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2021.

Yna, amlinellodd yr adroddiad wybodaeth am y canlynol:

1. Cyfansoddiad y Pwyllgor uchod o ran ei Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd;
2. Dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn y flwyddyn ddinesig 2020-21;
3. Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau;
4. Ei brif weithgareddau ar gyfer y cyfnod uchod, h.y. 2020-21; a
5. Strwythur presennol Tîm Staffio'r Gwasanaethau Democrataidd

PENDERFYNIAD: Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a nododd yr adroddiad blynyddol.

561. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad er mwyn i'r Aelodau allu derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y cyfnod 2020/21.

Er cefndir, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Safonau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad a gonestrwydd uchel ymhlith Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Mai 2020 a Mai 2021, roedd y Pwyllgor Safonau wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2021.

Yna, amlinellodd yr adroddiad wybodaeth am y canlynol:

a) Aelodau'r Pwyllgor Safonau, gan gynnwys yn ystod y cyfnod adrodd;
b) Tymor y Swydd (ar gyfer ei Aelodau Annibynnol a'i Aelodau Bwrdeistref Sirol);
c) Rôl y Pwyllgor
d) Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau
e) Dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd yn 2020-21
f) Mentrau hyfforddi a datblygu
g) Meysydd gwaith i edrych arnynt wrth symud ymlaen

PENDERFYNIAD: Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a nododd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.

562. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i gynghori Aelodau am adroddiad 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor i fod yn 'Gyngor Amrywiol', a pha gamau gweithredu dilynol y mae angen eu cymryd i sicrhau 'newid sylweddol' yn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

Eglurodd fod CLlLC wedi ymrwymo i newid amrywiaeth llywodraeth leol yn Etholiadau Lleol 2022, gan y cydnabyddir, er gwaethaf camau ac ymgyrchoedd blaenorol, fod cynnydd wedi bod yn araf a bod diffyg amrywiaeth o hyd mewn Cynghorau. Dangoswyd enghreifftiau o hyn ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad ac ehangwyd arnynt yn y cyfarfod gan y Swyddog Monitro.

Cyfeiriwyd at y sylfaen dystiolaeth, y rhwystrau a'r heriau i ddenu cynghorwyr mwy amrywiol yng nghyflwyniad CLlLC i Ymchwiliad Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a

Phwyllgorau Cymunedau y Senedd i amrywiaeth mewn llywodraeth leol ym mis Medi 2018. Gellir crynhoi'r rhwystrau a'r heriau yn fras fel a ganlyn:

- Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfod
- Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol
- Gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill
- Beirniadaeth gyhoeddus a cham-drin ar-lein
- Taliadau cydnabyddiaeth ac effaith ar gyflogaeth, a
- Diffyg modelau rôl o gefndiroedd amrywiol a chyfnodau mewn swydd

Mae CLlLC wedi ymrwymo i wneud newid sylweddol mewn amrywiaeth llywodraeth leol yn Etholiadau Lleol 2022. Mewn cyfarfod arbennig yn ystod mis Mawrth, cymeradwyodd ei Gyngor yr 'Adroddiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth' (sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad). Roedd yr adroddiad yn benllanw gwaith gan weithgor trawsbleidiol ac yn adeiladu ar gynlluniau gweithredu ac uchelgeisiau cynghorau a phartneriaid. Bydd CLlLC yn datblygu sawl cam gweithredu yn genedlaethol, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- Lansio gwefan "Bod yn Gynghorydd" (sydd eisoes wedi'i lansio);
- Sylwadau a wnaed i bleidiau gwleidyddol i weithredu ac i wneud cynnydd;
- Sylwadau i Lywodraeth Cymru a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ddweud y dylai cynghorwyr fod â hawl i 'grantiau ailsefydlu' pe baent yn colli eu sedd mewn etholiad.

Yn ei gyfarfod ac yn ei adroddiad, cydnabu Cyngor CLlLC y gwaith amrywiaeth sydd eisoes ar y gweill yn lleol ond galwodd am gydweithredu uchelgeisiol yn lleol. Drwy ei adroddiad a'r camau gweithredu sy'n deillio ohono, mae'n gofyn i Gynghorau flaenoriaethu gweithredu'n lleol, cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar lwfansau aelodau, ac i ddatblygu Datganiadau 'Cyngor Amrywiol' erbyn yr haf. Cytunodd Cyngor CLlLC yn unfrydol y dylai pob cyngor ymrwymo i ddatganiad erbyn mis Gorffennaf 2021 ar ddod yn 'Gynghorau Amrywiol' yn 2022, a hynny er mwyn darparu ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth.

Parhaodd y Swyddog Monitro drwy ddweud y bydd gwaith amrywiaeth lleol Cynghorau yn cael ei gefnogi gan ymgyrchoedd cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth, cyhoeddusrwydd a chefnogaeth gan CLlLC a Llywodraeth Cymru. Bydd swyddogion CLlLC yn cyfarfod â Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd i rannu syniadau a dulliau o ddatblygu datganiadau a chynlluniau gweithredu lleol.

Fel rhan o'r ymrwymiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi'r agenda Amrywiaeth mewn Democratiaeth, gofynnwyd i bob Aelod gwblhau arolwg amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod mis Mai 2021. Dangoswyd y prif ffigurau o'r canlyniadau hyn ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

Yn Atodiad 2 i'r adroddiad roedd gwybodaeth am gydraddoldeb a gasglwyd fel rhan o Gyfrifiad y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2011. Bydd canlyniadau'r arolwg aelodau yn cefnogi'r gwaith i wneud y Cyngor yn fwy amrywiol, yn darparu gwell dealltwriaeth o'r cymorth y gallai pobl ei angen, ac yn helpu i gefnogi cydraddoldeb a thegwch.

Pwysleisiodd y Swyddog Monitro ei bod yn fater o bwys bod CBSP yn ymrwymo i wella amrywiaeth, gan gynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol. Cynigiwyd felly bod y Cyngor yn ymrwymo i fod yn 'Gyngor Amrywiol' ac yn gwneud datganiad, er mwyn bodloni'r amserlenni gofynnol a bennwyd gan CLlLC, fel y nodir ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad

Yn Atodiad 3 i'r adroddiad, roedd Cynllun Gweithredu drafft a fydd yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny cyn Etholiadau Lleol 2022. Roedd y Cynllun yn dangos amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru a chyfuniad o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a chamau gweithredu arfaethedig unigryw i'r Cyngor.

PENDERFYNIAD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad y 'Cyngor Amrywiol', fel y nodir ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad.

563. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL - NEWIDIADAU I AELODAETH PWYLLGORAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a'i ddiben, oedd:

- rhoi gwybod i'r Cyngor am gydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod yn sgil newidiadau i aelodaeth grwpiau gwleidyddol;
- ceisio cymeradwyo'r cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig;
- cymeradwyo’r dyraniad o seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y'u nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a chymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth y Pwyllgorau fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Eglurodd fod newid diweddar wedi bod yn aelodaeth y grwpiau gwleidyddol, a’r Cynghorydd C Webster wedi gadael y Grŵp Ceidwadol i ymuno â Grŵp y Gynghrair Annibynnol.

Roedd y newid a amlinellwyd ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad wedi effeithio ar y cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau.

O ystyried y cynnwys a nodir ym mharagraff 3.3 (o'r adroddiad), roedd angen newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor yn awr, fel a ganlyn:-

1. Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – Grŵp Ceidwadol i golli sedd, Grŵp Cynghrair Annibynnol i ennill sedd.
2. Pwyllgor Rheoli Datblygu – Y Cynghorydd M Hughes i golli sedd, Grŵp Cynghrair Annibynnol i ennill sedd.
3. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 – Grŵp Ceidwadol i golli sedd, y Cynghorydd M Hughes i ennill sedd.
4. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 – Y Cynghorydd JH Tildesley i golli sedd, Grŵp Cynghrair Annibynnol i ennill sedd

Dywedodd y Swyddog Monitro ar lafar wrth yr Aelodau fod angen newid pellach ar wahân i'r uchod, sef ychwanegu aelod o'r Grŵp Ceidwadol at aelodaeth y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Yn dilyn yr adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol fel yr awgrymwyd uchod, byddai aelodaeth y pwyllgorau yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu cyfansoddiad Pwyllgorau'r Cyngor yn unol â hynny. Dangoswyd y ffigurau cydbwysedd gwleidyddol wedi'u diweddaru sy'n cynnwys y newidiadau hyn yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:

(1) Nodi canlyniad cydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod o ganlyniad i newidiadau i aelodaeth grwpiau gwleidyddol;

(2) Cymeradwyo'r cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig (y Cyngor);

(3) Cymeradwyo dyrannu seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a'r newidiadau dilynol i aelodaeth y Pwyllgorau fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad, drwy'r enwebiadau Cynghorwyr canlynol:-

- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – Grŵp Ceidwadol i golli sedd (cyn-aelod C Webster) a'r Cynghorydd C Webster, Grŵp Cynghrair Annibynnol i ennill y sedd hon;
- Pwyllgor Rheoli Datblygu – Y Cynghorydd M Hughes, Annibynnol i golli sedd a'r Cynghorydd C Webster, grŵp Cynghrair Annibynnol i ennill y sedd hon. Bod y Cynghorydd S Vidal, Grŵp Ceidwadol hefyd yn ennill sedd ar y Pwyllgor hwn;
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 – Ceidwadwyr i golli sedd (y cyn aelod Cynghorydd C Webster) a'r Cynghorydd M Hughes, Annibynnol i ennill y sedd hon, a
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 – Y Cynghorydd JH Tildesley, Annibynnol, i golli sedd, a'r Cynghorydd C Webster, Grŵp Cynghrair Annibynnol i ennill y sedd hon.

564. <u>I DDERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN:</u>

**Y Cynghorydd Altaf Hussain i'r Arweinydd/Aelod Cabinet - Cymunedau**

Gellid gwario hyd at £20 miliwn dros y 2 flynedd nesaf i wella ymddangosiad siopau, i roi cymorth i fusnesau newydd, i roi cymhorthdal ar gyfer tocynnau bws, ac i gynyddu casgliadau biniau yn Abertawe. Bydd pob ward yn Abertawe yn rhannu pecyn cymorth. Byddai tanwariant y Cyngor yn 2020-2021 yn caniatáu i Gyngor Abertawe wneud hyn.

Yn hytrach, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae cynnydd o 3.9% yn y dreth Gyngor yn 2021-2022 heb unrhyw fudd i wardiau neu drigolion y Fwrdeistref.

A allai'r Arweinydd roi gwybod i'r Cyngor am ei gynllun, os oes ganddo un, i helpu trigolion ein Bwrdeistref a pha waddol yr hoffai ei gadael ar ddiwedd ei dymor yn 2022?

**Ymateb:**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ymateb i effaith pandemig COVID-19 ar economi Pen-y-bont ar Ogwr a busnesau lleol a'i liniaru drwy wella'r hinsawdd economaidd ar gyfer twf busnes a chyflawni prosiectau adfywio allweddol yn ein prif drefi ac ardaloedd y cymoedd. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith diwydiannol a busnes allweddol, er enghraifft datblygu unedau cychwynnol ychwanegol ar gyfer busnesau sy'n tyfu yn y Pîl a Phen-y-bont ar Ogwr. Bydd y datblygiad yr unedau yn Ystâd Ddiwydiannol y Pîl yn dechrau yn ddiweddarach eleni ac rydym yn parhau i archwilio lleoliadau posibl eraill ar draws y Fwrdeistref at ddibenion cyflogaeth newydd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Thîm Mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru i farchnata Pen-y-bont ar Ogwr ledled y DU ac Ewrop a cheisio denu cwmnïau newydd a chyfleoedd buddsoddi i'r Fwrdeistref. Mae denu cyllid grant yn rhan allweddol o'r gwaith hwn ac mae'r Gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiectau posibl y gellid eu cyflwyno ar gyfer Cronfa Lefelu Newydd Llywodraeth y DU. Gallai hyn gynnwys "Hwb Amaeth" posibl, a allai fod olygu marchnad da byw amaethyddol newydd a chyfleoedd manwerthu cysylltiedig. Os bydd yn llwyddiannus, gallai hyn sicrhau manteision economaidd ac amgylcheddol sylweddol i'r cymunedau amaethyddol a’r cymunedau lleol sy'n cynhyrchu bwyd yn y rhanbarth. Mae ymestyn y Rhaglen Datblygu Gwledig hyd at fis Rhagfyr 2022 yn cynnig cyfle i gefnogi dilyniant y cynllun hwn. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac yn cynorthwyo ein trigolion i ddychwelyd i'r gwaith drwy fentrau fel "Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar

Ogwr". Eleni, o fis Ebrill 2020 hyd ddiwedd mis Mawrth 2021, bu'r Tîm Cyflogadwyedd yn helpu 1255 o bobl o Ben-y-bont ar Ogwr i gymryd rhan yn y rhaglen, gan gynnwys cefnogi 60 o bobl a oedd eisoes mewn gwaith i wella eu sefyllfa yn y farchnad lafur; Mae 408 o bobl wedi ennill cymwysterau ac mae 398 wedi canfod gwaith.

Mae darparu cymorth ariannol i fusnesau a'r economi o Gronfa Adfer Covid Llywodraeth Cymru wedi bod yn swyddogaeth graidd i'n Cyfarwyddiaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi asesu a dosbarthu 6,500 o grantiau busnes a thros £50m i fusnesau yn y Fwrdeistref. Mae hyn yn ychwanegol at gefnogi busnesau manwerthu a chanol trefi i weithredu'n effeithiol yn ystod y pandemig, gyda mentrau fel Grantiau Gwella Awyr Agored ac ymyriadau mewn amgylcheddau manwerthu fel arwyddion iechyd y cyhoedd mewn ffenestri, marciau pellter cymdeithasol ar loriau, a llyfrynnau Cyngor Iechyd y Cyhoedd Covid. Bydd y gwaith hwn yn parhau i sicrhau bod busnesau'n cael y cyfle gorau i wneud adferiad economaidd llwyr wrth ddod allan o'r pandemig ac i fusnesau newydd barhau i ffynnu a thyfu.

Ym mis Mehefin 2020, dechreuodd y Cabinet broses o gynllunio adferiad economaidd lleol drwy sefydlu:

- Tasglu Economaidd Sir Pen-y-bont ar Ogwr
- Rhaglen ymgysylltu economaidd
- Cyllideb benodol wedi'i neilltuo i gefnogi'r gweithgareddau hyn – Cronfa Dyfodol Economaidd.

Crëwyd y tasglu gyda dyhead clir i esblygu ei ffocws dros amser i ddatblygu cynllun economaidd ar gyfer dyfodol y Fwrdeistref Sirol a fydd yn cynnwys camau i helpu busnesau i addasu i'r dirwedd economaidd newidiol ac i wella gwytnwch, yn ogystal â rhoi cymorth i drigolion ddatblygu sgiliau newydd, i dderbyn hyfforddiant, a chanfod cyfleoedd cyflogaeth. Mae'r broses o greu cynllun economaidd newydd drwy Fframwaith Dyfodol Economaidd arfaethedig Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn ystod pandemig COVID-19, yn cyflwyno ystod eang o heriau, y mae llawer ohonynt yn hysbys ond bydd llawer ohonynt ond yn dod i'r amlwg yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Byddwn dal angen y gallu i ymateb, ond bydd rhaid cyplysu hyn â dull rhagweithiol tymor hwy sy'n arwain at adferiad economaidd, gwella gwydnwch, a thwf. Bydd y dull hwn yn cysylltu ag ymagwedd ehangach y Cyngor tuag at gynllunio adferiad cyfannol o ran y pandemig coronafeirws yn ogystal â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Yn dilyn adolygiad manwl o ddata ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, bydd y fframwaith a'i becynnau gwaith yn gosod sylfaen ar gyfer trafodaethau ar flaenoriaethu camau gweithredu gyda Llywodraethau Cymru a'r DU yn ogystal â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, amrywiaeth o ffynonellau ariannu, buddsoddwyr, a datblygwyr. Bydd hyn yn cefnogi uchelgeisiau parhaus y Cyngor i chwarae rôl lawn a gweithredol wrth gefnogi'r economi leol.

Rydym wrthi'n datblygu cynlluniau adfywio ar draws y Fwrdeistref. Dyma gipolwg ar y prosiectau parhaus ac arfaethedig ar gyfer Cwm Llynfi yn unig.

Mae prosiect cymunedol mwyaf CBSP yn digwydd yn Neuadd y Dref Maesteg, gyda dros £8m o waith yn cael ei wneud i adnewyddu a gwella Neuadd hanesyddol y Dref, bydd hyn yn agor haf 2022 wedi'i drawsnewid yn lleoliad celf o'r radd flaenaf ar gyfer y cymoedd.

Yn ogystal â hyn, dyfarnwyd dros £400,000 mewn grantiau cyfalaf i eiddo masnachol ar hyd Stryd Talbot a Commercial Street, a fydd yn dechrau dros yr ychydig fisoedd nesaf, ochr yn ochr â buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd yn y dref, gan adnewyddu a gwella coed a phlannu ar hyd Commercial Street.

Rydym yn agos at sicrhau buddsoddiad o £3.5m yn Ewenny Road. Bydd hyn yn adfer y safle trwy drawsnewid hen safle Cooper Standard ac Revlon yn 180 o dai fforddiadwy newydd, canolfan fusnes a thrafnidiaeth, a mannau gwyrdd.

Bydd hyn yn gyfanswm o £13m o fuddsoddiad yng Nghwm Llynfi yn unig erbyn 2024.

Rydym yn bwrw ymlaen â chyflawni Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, ar ôl ei ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar yn 2021. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i Orsaf Reilffordd Pen-y-bont ar Ogwr i ddarparu mynedfa gyffrous i ganol y dref, a’r gwaith o gaffael Adeilad Gorsaf Heddlu De Cymru yn Cheapside fel rhan o adleoliad arfaethedig Campws Coleg Pen-y-bont ar Ogwr i ganol y dref. Bydd y cynlluniau'n cael eu cefnogaeth gan grantiau Cynllun Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, sydd am ymrwymo dros £500,000 i wella adeiladau ac eiddo yng nghanol y dref yn ystod y flwyddyn ariannol hon, yn ogystal â datblygiad piblinell o brosiectau ar gyfer cymorth dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y rhaglenni a'r prosiectau hyn yn bywiogi Pen-y-bont ar Ogwr a’n denu ymwelwyr yn ôl yno, ac yn helpu i adfer y dref yn economaidd.

Mae cryn dipyn o weithgarwch adfywio hefyd wedi'i gynllunio ar gyfer Porthcawl dros y flwyddyn i ddod. Mae'r Cyngor wrthi'n gwerthu‘r safle manwerthu ar Salt Lake i Aldi. Rhagwelir y bydd cais cynllunio yn dod i law yn hwyrach yn yr haf ar gyfer siop fwyd sydd wedi'i chynllunio’n bwrpasol ar gyfer y safle wrth fynedfa’r dref, gyda maes parcio wedi'i dirlunio ac amgylchfyd cyhoeddus. Yn ogystal â hyn, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnal astudiaeth creu lleoedd gyda’r bwriad o sicrhau bod holl elfennau allweddol y strategaeth adfywio ar gyfer Porthcawl yn ategu ei gilydd a’u bod o ansawdd uchel. Hefyd, eu bod wedi'u cynllunio'n dda ac yn ail-gysylltu canol y dref â glan y môr. Mae hyn yn cynnwys ailgynllunio Maes Parcio Hillsboro a gosod seilwaith gwefru trydan.

Fel rhan o waith adfywio Porthcawl mae’r Gyfarwyddiaeth hefyd yn edrych ar ddull partneriaeth o ddarparu datblygiad tai defnydd cymysg ar Salt Lake. Gellid cynllunio hyn i fod yn "Net Zero Carbon" ac mae ganddo fanteision economaidd a chymdeithasol enfawr drwy fod yn ddatblygiad deiliadaeth gymysg sy’n gynaliadwy. Mantais ychwanegol y dull partneriaeth hwn o adfywio yw y byddai'r tir yn parhau ym mherchnogaeth y Cyngor, gan ei fod yn ased mor werthfawr i gymuned Porthcawl.

Un arall o brosiectau allweddol eleni yw ailddatblygiad safle gwag Cosy Corner. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gwneud cais i gronfa Cyrchfannau Denu Twristiaid (TAD) Llywodraeth Cymru i gael gafael ar tua £1m o gyllid. Bydd hyn yn cael ei ariannu'n gyfatebol gan y Cyngor, ac os caiff ei gymeradwyo, bydd y grant yn helpu i greu gofod i gyflogi, amgylchfyd cyhoeddus wedi'i dirlunio, ac ardal chwarae bosibl i blant. Bydd cyfleusterau cymunedol hefyd, gan gynnwys canolfan newydd ar gyfer Cadetiaid y Môr, cyfleuster Changing Places, a gwell amwynderau i Ddeiliaid Angorfeydd yn yr Harbwr. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn frwd dros weithio mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol ar ei holl brosiectau adfywio hyd a lled y Fwrdeistref ac mae'n cynnal sesiynau ymgysylltu i asesu barn busnesau a thrigolion lleol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor a'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod bod nifer fawr o ganolfannau ardal ac ardaloedd siopa lleol, rhai sy’n chwarae rhan allweddol ym mywyd trigolion y Fwrdeistref. Mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod y pandemig, pan ddaeth siopa'n lleol yn fwy cyffredin. Am y rheswm hwn, rydym wedi ymestyn ein Cronfa Gwella Eiddo Masnachol. Mae'n cynnig cymorth i fusnesau ar draws y Fwrdeistref Sirol i wneud gwelliannau i'w heiddo er mwyn sicrhau bod eu model busnes yn cyd-fynd â'r dulliau gweithredu newydd wrth i ni ddechrau adfer yn sgil y pandemig. Mae dros 70 o grantiau eisoes wedi'u dyfarnu ers mis Ionawr, a gallant gael eu defnyddio i wella ardaloedd awyr agored drwy osod canopïau ac ardaloedd eistedd.

Hefyd, ar ôl llwyddiannau’r gorffennol o ran denu Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi prosiectau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel rhan o'r cyfnod pontio mae'r Cyngor yn

anelu at sefydlu perthynas uniongyrchol newydd â Llywodraeth y DU, gan helpu i siapio cyfleoedd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr drwy Gronfeydd Cyfnewid y DU. Gan weithredu fel awdurdod arweiniol ar y cychwyn i fynd ar drywydd a chydlynu cyfleoedd i'r Cyngor a phartneriaid allweddol drwy'r Cronfeydd Codi'r Gwastad a Chronfeydd Adnewyddu Cymunedol newydd.

Ym mis Mehefin 2020, gwnaeth CBSP ddatganiad ffurfiol mewn perthynas ag Argyfwng Hinsawdd a chydnabod rôl y Cyngor wrth ymateb i hyn fel arweinydd cymunedol, un sy'n gweithio gyda phreswylwyr, grwpiau a busnesau ynglŷn â'u defnydd o ynni ac sy'n paratoi ar gyfer effeithiau'r hinsawdd. Yn ogystal, fel darparwr gwasanaeth, i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon o ran adnoddau sy'n llai dwys o ran carbon, i annog mwy o wytnwch ac i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Y Cyngor hefyd yw rheolwr yr ystâd gorfforaethol, a rhaid iddo sicrhau bod yr ystâd a'i weithrediadau mor effeithlon o ran adnoddau â phosibl, gan ddefnyddio ynni glân a pharatoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yr adeg honno, cymeradwyodd y Cabinet greu pwyllgor aelod trawsbleidiol i oruchwylio'r Rhaglen Ymateb i Argyfwng Hinsawdd, Cynulliad Argyfwng Hinsawdd Dinasyddion Sir Pen-y-bont ar Ogwr a chynnal Uwchgynhadledd Cynaliadwyedd Flynyddol ar gyfer Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd pob un o'r rhain yn cael eu sefydlu o fewn y 12 mis nesaf.

Ym mis Ionawr 2021, cymeradwyodd y Cabinet y gwaith o ddatblygu "Strategaeth Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030" a fydd yn nodi sut y bydd y Cyngor yn anelu at gyrraedd sefyllfa di-garbon net erbyn 2030 fel rhan o'i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. . Roedd hyn mewn ymateb i fandad Llywodraeth Cymru y dylai pob sefydliad sector cyhoeddus, o fewn 10 mlynedd, sef erbyn 2030, fod yn ddi-garbon net mewn pedwar prif faes. Roedd hyn yn cynnwys trafnidiaeth a symudedd, adeiladau ac ynni, defnydd tir a bioamrywiaeth, ac wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Er mai menter gorfforaethol yw hon, mae'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau yn arwain yr agenda hon. Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030 yn cael eu datblygu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn 2021. Mae rhan gyntaf y gwaith manwl hwn yn cynnwys deall ôl troed carbon y Cyngor a darparu llinell sylfaen. Dechreuwyd yr ymarfer hwn gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Garbon. Fodd bynnag, ni all y Cyngor wneud hyn heb gynnwys ei bartneriaid allweddol, a bydd yn gweithio'n agos gydag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, awdurdodau lleol yn y rhanbarth, a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod strategaeth effeithiol a chyflawnadwy yn cael ei datblygu.

Nid yw dull y Cyngor o ymateb i'r argyfwng hinsawdd a datblygu ei Strategaeth Datgarboneiddio 2030 yn dechrau o sefyllfa segur. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ei Gynllun Ynni Clyfar ac mae wedi datblygu tri phrosiect mawr gyda budd tua £10m o gyllid grant gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a benthyca darbodus gan y Cyngor ei hun. Y rhain yw Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr, Prosiect Gwres Caerau, a'r Prosiect Re-FIT. Bydd Prosiect Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn symud ymlaen i gaffael Contractwr Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal dros y flwyddyn nesaf ac os bydd hyn yn llwyddiannus, yna gallai'r gwaith o adeiladu'r rhwydwaith gwres ddechrau yn 2022. Mae Prosiect Gwres Caerau wedi'i ailddiffinio i gynnwys cyfuniad o brosiectau ynni, gan gynnwys dŵr mwyngloddiau, gwres o'r ddaear, a gwifren breifat o fferm wynt leol. Mae'r newid cyfeiriad hwn o ran datblygu wedi cael ei gymeradwyo gan y cyllidwr, sef Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), felly bydd dyluniadau manwl yn cael eu datblygu yn awr gyda'r nod o sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet yn ystod haf 2021. Mae'r Prosiect Re-Fit yn cael ei ddatblygu i osod £1.3m o fesurau ynni effeithlon o fewn yr ystâd gorfforaethol, y rhan fwyaf ohonynt i'w defnyddio ym maes addysg. Mae hyn yn cynnwys systemau gwresogi ac awyru newydd, inswleiddio, a gosod paneli ffotofoltäig (PV). Penodwyd contractwr a bydd y gwaith yn cael ei wneud dros y 6 mis nesaf.

Yn ogystal â'r gwaith i leihau ôl troed carbon y Cyngor, bydd ffocws ar fesurau i gefnogi swyddogaeth statudol y Cyngor i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i ddechrau dal a storio carbon. O ran y cynlluniau ynni a ddisgrifir uchod, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi ymrwymo i wella bioamrywiaeth y Fwrdeistref ac yn arbennig i ddiogelu'r parciau naturiol a'r gwarchodfeydd natur o fewn ei rheolaeth. Bydd gwaith yn parhau drwy fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP), gan adeiladu ar y gwelliannau dros £1m ym Mharc Gwledig Bryn Garw ac yng ngwarchodfa natur Parc Slip. Bydd y Cyngor yn ceisio dynodi Parc Bedford yn ffurfiol fel gwarchodfa natur leol (LNR) eleni, ymestyn gwarchodfa natur leol Frog Pond Wood, a defnyddio cyfalaf i wella'r ardaloedd hyn. Mae'r Cyngor am gynyddu nifer y coed a blannir ar draws y fwrdeistref er mwyn cynorthwyo gyda'i dargedau uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon. Mae nifer o gynlluniau i'w gweithredu, ond bydd y Cyngor hefyd yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o bartneriaid dros y flwyddyn nesaf i ddatblygu cynlluniau plannu coed a gwrychoedd ar draws y Fwrdeistref, i'w gweithredu yn 2022.

O ran gwasanaethau ehangach y Cyngor, fel rhan o ymateb Covid 19 ac yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, roedd disgwyl i bob awdurdod lleol sicrhau nad oedd unrhyw unigolyn yn ddigartref ar y stryd a'u bod yn cael llety addas. Er mwyn cefnogi dull strategol, cydgysylltiedig, ac amserol, sefydlwyd cyfarfod Celloedd Digartref wythnosol amlasiantaethol i ymateb i'r gofynion hyn.

Yn 2020/21 derbyniodd CBSP dros 1600 o geisiadau digartrefedd o aelwydydd dan fygythiad neu gan bobl a fyddai'n ddigartref yn fuan. Er mwyn diogelu unigolion agored i niwed, cynigiwyd lleoliad llety i unrhyw un mewn perygl o gysgu ar y stryd, a arweiniodd hyn at ddarparu llety dros dro i dros 600 o aelwydydd drwy 2020/21.

Er mwyn bodloni'r gofynion hyn cafodd adnoddau llety ychwanegol eu sicrhau, yn bennaf o'r sector twristiaeth, gan gynnwys gwestai a gwyliau. Mewn partneriaeth â darparwyr cymorth y trydydd sector, cafodd pawb a dderbyniodd lety help gydag unrhyw anghenion cymorth sylfaenol, a hynny er mwyn sicrhau bod unigolion yn datblygu sgiliau byw'n annibynnol, gan alluogi iddynt sicrhau a chynnal llety tymor hwy. Gwnaethpwyd gwaith ar y cyd â'r Heddlu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig cafodd Protocol Ailgartrefu Cyflym ei fabwysiadu er mwyn cefnogi'r symudiad o lety dros dro.

Mae cyflwyniadau digartrefedd yn parhau i fod yn uchel, ac ar 11 Gorffennaf 2021 roedd 306 o bobl o 185 o aelwydydd mewn llety dros dro. Mae disgwyliad clir gan Lywodraeth Cymru na fydd y rhai sy'n derbyn llety yn dychwelyd i ddigartrefedd, ond yn hytrach eu bod yn cael eu cefnogi i sicrhau llety hirdymor. Mae awgrym y bydd y disgwyliadau a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru yn parhau ar sail tymor hwy hefyd, gan awgrymu y bydd y gofynion hyn yn parhau hyd y gellir rhagweld.

Yn ogystal â'r uchod, mae potensial hefyd am fwy o bwysau ar wasanaethau, gyda chyfreithiau brys a gyflwynwyd i ddiogelu pobl rhag cael eu dadfeddiannu yn cael eu codi o 30 Mehefin 2021. Wrth i'r cyfreithiau brys hyn ddod i ben mae potensial ar gyfer mwy o gyflwyniadau. Yn ogystal, mae gan effaith economaidd-gymdeithasol tymor hwy y pandemig y potensial i adael mwy o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd.

Ym maes addysg, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gyda'i bartner gwella ysgolion (Consortiwm Canolbarth y De) i sicrhau bod pob dysgwr yn elwa o addysgu a dysgu effeithiol. Mae rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor wedi arwain at adeiladu nifer o ysgolion newydd ar draws y sir. Yn ogystal, mae CBSP wedi buddsoddi mewn Gwasanaeth Cerdd effeithiol sy'n cynnig hyfforddiant o ansawdd uchel i ddysgwyr ar draws y fwrdeistref sirol.

Gwnaed buddsoddiad sylweddol yng ngwasanaethau cynhwysiant yr awdurdod lleol i sicrhau bod pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol. Cefnogir anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ymhellach gan fodel gwasanaethau integredig effeithiol (fel y cydnabyddir gan Estyn).

Mae'r buddsoddiad y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn gwasanaethau iechyd a diogelwch wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i ystod eang o bartneriaid cyflenwi; enwedig ysgolion, a gafodd gymorth rhagorol drwy gydol y pandemig. Yn yr un modd, mae dysgwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn elwa o fuddsoddiad y Cyngor mewn gwasanaeth arlwyo ysgol hynod effeithiol sy'n hyrwyddo byw'n iach.

Drwy ei Adran Landlordiaid Corfforaethol, mae CBSP wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o atgyweirio, cynnal a chadw, ac uwchraddio ei Ystâd Eiddo Addysg, gan wella'r adeiladau lle bynnag y bo modd er mwyn ddarparu cyfleusterau gwell i ddysgwyr; yn fewnol ac yn allanol. Ar hyn o bryd mae £3.57m wedi'i raglennu ar gyfer gwariant yn 2021/22, ac mae'n cynnwys nifer o doeon newydd, uwchraddio mannau addysgu allanol, gwaith awyru gwell, nifer o osodiadau arwyneb chwarae meddal, uwchraddio draeniau, gosodiadau lifft DDA, gosod llain pob tywydd posibl, estyniadau i ystafelloedd dosbarth, mesurau diogelwch ffyrdd gwell, ynghyd â swm sylweddol o fesurau arbed ynni a gwaith cynnal a chadw hanfodol arall.

O ran gwasanaethau cymdeithasol, parhaodd y Cyngor i gynnig cymorth hanfodol i drigolion y fwrdeistref sirol drwy gydol y pandemig, er gwaethaf yr heriau sylweddol a wynebwyd. Gweithiodd y gwasanaeth yn agos gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i sicrhau eu bod yn cael sicrwydd a'n gwybod sut yr oeddem yn gweithio, ac addaswyd ein modelau gweithredu i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a haenau o gyfyngiadau, wrth barhau i ddiogelu, diogelu a darparu gwasanaethau hanfodol.

Parhaodd gwasanaeth wyneb yn wyneb drwy gydol y pandemig o ran gofal cymdeithasol – cartrefi gofal, byw â chymorth, taliadau uniongyrchol gofal cartref Cynorthwywyr Personol, ymchwiliadau amddiffyn plant ac asesiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Datblygodd y gwasanaeth ei fodelau gweithredu ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant yn gyson yn unol â haenau cyfyngiadau Llywodraeth Cymru. Roedd asesiadau risg yn golygu fod gwasanaethau'n gweithredu'n ddigidol ar rai haenau o gyfyngiadau, gan fod y risg i iechyd y cyhoedd o ledaenu'r firws yn rhy fawr. Ym maes gwasanaethau i blant, pan ganiateid hynny gan y mesurau lliniaru risg, cynhaliodd swyddogion ymweliadau wyneb yn wyneb â phlant a theuluoedd mewn perthynas ag amddiffyn plant, gofal i blant â phrofiad o ofal ac i ofalwyr maeth. Un maes anodd oedd y cyswllt rhwng rhieni a phlant â phrofiad o ofal, a dilynodd y gwasanaeth ganllawiau Llywodraeth Cymru yn ofalus i alluogi ailddechreuad cyswllt wyneb yn wyneb cyn gynted ag y byddai mesurau lliniaru risg yn caniatáu

O ran gwasanaethau i oedolion, roedd cyfleoedd dydd yn cael eu gweithredu ar niferoedd is, a chyda mesurau lliniaru risg helaeth pan oedd haenau cyfyngiadau'n caniatáu, ar adegau eraill roedd risgiau iechyd y cyhoedd yn rhy uchel ac roedd staff gwasanaethau dydd yn cefnogi pobl i gadw'n brysur a diwyd yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnwys yn lleoliadau byw â chymorth y Cyngor. Bu gweithwyr cymdeithasol oedolion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr proffesiynol eraill i leihau nifer y bobl a ymwelodd â chartrefi gofal a lleoliadau eraill sy'n agored i niwed, a'u hannog i gadw mewn cysylltiad â phobl yn y modd a oedd yn gweddu orau iddynt, sef dros y ffôn i lawer o unigolion. Roedd asesiadau o fudd gorau pobl o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn faes gwaith heriol, o ystyried y cyfyngiadau ar weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â chartrefi gofal. Gweithiodd y gwasanaeth i fynd i'r afael ag oediadau yn y gwaith diogelu hanfodol hwn wrth i'r haenau gyfyngiadau ostwng. Mae'r galw am y gwasanaeth yn

parhau i dyfu ac ar hyn o bryd mae'n darparu 640 awr yr wythnos yn fwy nag ym mis Ebrill 2020, gyda cheisiadau cynyddol i ymestyn pecynnau gofal sy'n bodoli eisoes.

Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn parhau i ymateb i effaith pandemig Covid-19 a'i liniaru, gan ganolbwyntio ar adferiad, ac adeiladu ar y cymorth eang a'r gwasanaethau a ddarperir a amlygwyd uchod.

O ran fy ngwaddol, mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei farnu gan etholwyr ac etholwyr CBSP, nid fi.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd A Hussain**

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot am fuddsoddi £5m o'u cronfeydd wrth gefn i'r ardal leol wrth i ni adeiladu'n ffordd allan o'r pandemig, a hynny i gynorthwyo busnesau lleol, i gefnogi cymunedau lleol, ac i sicrhau cymdogaethau glân a diogel.

Rydym ni oll yn gwybod fod Cynghorau ledled Cymru, gan gynnwys ein Cyngor ni, wedi dangos arweinyddiaeth lleol a dyfeisgarwch yn ystod y Pandemig ac wrth i ni ddod allan ohono.

Arweinydd, mae'n edrych fel eich bod yn ceisio adeiladu eich gwaddol, er yn hwyr, drwy liniaru effaith Pandemig COVID-19, a hyn pan fo pawb bellach yn edrych ar y gwaddol a adawyd i'n cymunedau gan COVID-19.

Mae ein tref ym Mhen-y-bont ar Ogwr ychydig (nid ychydig) yn farwaidd ar hyn o bryd, ond roedd hynny'n wir hyd yn oed cyn y pandemig, mae'n wir y byddai'n buddio o gael chwistrelliad o gyffro a bywyd.

Ar wahân i hynny, pa rôl ydych chi'n ei chwarae fel Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2021-2022? A ydych yn mynd i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor i helpu i sicrhau dyfodol hirdymor ein Bwrdeistref Sirol wrth gefnogi adferiad ein tref ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

**Ymateb:**

Roedd adroddiad diweddar i'r Cabinet yn cynnwys cynnig i brynu safle gorsaf Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr, er mwyn dod â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr nes at ganol y dref, rhywbeth a fydd yn ei dro yn dod â lefelau uwch nag erioed o fuddsoddi mewn addysg bellach ac uwch. Bydd hyn hefyd yn bywiogi ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i Ben-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â rhyddhau safle Tir Llwyd i'w ail-ddatblygu. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwyo prosiect Rhwydwaith Gwres Pen-y-bont ar Ogwr (y cyntaf o'i fath yng Nghymru), sy'n cyd-fynd â'n hagenda di-garbon net a'n ymateb gweithredol a chadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd gan y Cyngor. Mae'r Awdurdod hefyd wedi buddsoddi £2.85m mewn llwybrau cerdded rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed a'r Pîl a Phorthcawl, yn ogystal â buddsoddi yn Neuadd Bytholwyrdd. Mae wedi buddsoddi ymhellach i annog y defnydd o gerbydau allyriadau isel, gan gynnwys darparu pwyntiau gwefru. Bydd hyn yn gwella ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda symudiad oddi wrth gerbydau disel at gerbydau ynni isel a wefrir gan drydan.

Mae gennym Uwchgynlluniau ar y gweill a rhai arfaethedig ar gyfer trefi Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl, mae gwaith yn cael ei wneud yn Neuadd y Dref Maesteg ac ar y Groesfan Reilffordd ym Mhencoed

Nid yw'r pandemig wedi darfod eto, ac rydym yn pryderu'n fawr am yr hyn yr hyn a ddaw ym misoedd y gaeaf, yn ogystal â chanolbwyntio ar yr ennyd bresennol. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod trigolion y Fwrdeistref Sirol yn parhau i gael eu brechu ac yn cael eu diogelu, yn y presennol ac yn y dyfodol.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd R Young**

Ar ôl mwy na 10 mlynedd o doriadau llywodraeth leol, pa mor gadarn yw'r Awdurdod yn wyneb rhagor o doriadau posibl o ganlyniad i heriau parhaus yn sgil y pandemig, ymhlith heriau eraill.

**Ymateb:**

Ni ellir gwneud gwerth £60m o doriadau, a wnaed o fewn y cyfnod uchod, heb iddo gael effaith ar wasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, rwy'n hynod falch o ymdrechion y staff dros y cyfnod hwn, ac yn fwy penodol, yr 16 mis diwethaf yn ystod cyfnod Covid-19. Yn y cyfnod hwn, mae 6.5 mil o fusnesau wedi derbyn dros £50m gan y Cyngor mewn grantiau. Rydym hefyd wedi helpu'r nifer uchaf erioed o bobl i ddychwelyd i gyflogaeth ar ôl colli swydd o ganlyniad i'r pandemig, dros 400 o bobl. Rydym wedi helpu mwy o bobl a oedd wedi colli'u cartrefi nag erioed, 600 o deuluoedd, ac wedi cefnogi 23,500 o unigolion mewn Ysgolion a 4,500 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal ag ymateb i'r pandemig. Roedd pob awdurdod yng Nghymru wedi cynyddu eu Treth Gyngor er mwyn ymateb i'r heriau ariannol hyn, heriau sy'n cynyddu yn hytrach na diflannu, ac sy'n debygol o barhau i gynyddu yn y dyfodol rhagweladwy. Mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiadau heddiw ar Reoli'r Trysorlys a'i Raglen Gyfalaf ac os bydd unrhyw Aelod yn teimlo nad yw Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdodau yn briodol, yna gallant godi hyn yn unigol gyda'r Swyddog S151. Rydym yn adolygu ein cyllid bob chwarter, ac ar yr adegau hynny rydym yn edrych ar y mathau o Gronfeydd wrth Gefn gyda'r bwriad, lle bynnag y bo modd, o'u buddsoddi mewn gwelliannau yn ein cymunedau.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd S Dendy**

Mae Cwm Garw yn cael ei adnabod fel y 'cwm anghofiedig' yn lleol, ac unwaith eto mae'r ymateb yn atgyfnerthu hyn.

Er fy mod yn llwyr gefnogi'r ymateb i'r symudiad tuag at fod yn garbon niwtral a'r mesurau a grybwyllir yn yr ateb, yn ogystal â mynd i'r afael â digartrefedd yn ein Bwrdeistref Sirol. Ychydig iawn o'r hyn a drafodwyd yn yr ymateb sy'n effeithio ar fywydau trigolion Cwm Garw o ddydd i ddydd. Ni fydd llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud ym Maesteg, Porthcawl a chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn hawdd i'w cyrraedd i'r rhai yng Nghwm Garw a Chwm Ogwr.

Pan ofynnaf beth y mae'r Cyngor wedi'i wneud ar gyfer Cwm Garw, efallai y gwnaiff yr Arweinydd sôn am yr ysgol newydd ym Metws, sy'n ased gwych, ond nid yw'n hawdd i weddill Cwm Garw ei chyrraedd oni bai bod ganddynt eu cludiant eu hunain, a nodais yng nghyfarfod llawn diwethaf y Cyngor fod hynny'n rhywbeth prin ymhlith cyfran fawr o boblogaeth y cymoedd.

Dyw Cwm Garw yn cael prin ddim sylw yn y CDLl yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd ychwaith, sy'n golygu bod y siawns o newid a datblygu yn ein hardal yn eithriadol o fychan. Nid oes unrhyw ardaloedd masnachol wedi'u diogelu yng nghymunedau'r Cymoedd nac mewn ardaloedd newydd yn y Fwrdeistref.

A yw'r Arweinydd yn cydnabod y materion hyn, ac a yw'n fodlon ymddiheuro i drigolion Cwm Garw am beri iddynt deimlo, yn gwbl gywir tybiaf, fel eu bod yn cael eu hanghofio?

**Ymateb:**

Rydym wedi ariannu Ysgolion Cynradd Ffaldau a Blaengarw ar gyfer plant yng Nghwm Garw, ac mae plant hŷn y rhanbarth yn cael eu haddysgu mewn Ysgol Uwchradd o'r

radd flaenaf, sef Coleg Cymunedol Y Dderwen. Mae'r Awdurdod hefyd yn cefnogi pobl ddigartref ym Mlaengarw, yn ogystal â llawer o fusnesau yno, gyda'u Cynllun Cyflogadwyedd. Rydym hefyd yn datblygu cyfleuster Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg newydd yng Nghwm Garw, rhywbeth nad yw'n cael ei ddarparu ym mhob cymuned o few CBSP. Cafwyd cyfle yn gynharach i'r Cynghorydd Dendy ac Aelodau eraill a oedd yn bresennol i wneud cyfraniad pan ystyriwyd adroddiad y Rhaglen Gyfalaf, lle'r oedd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynghylch cynigion/cyfleoedd buddsoddi gan ystyried yr adroddiad. Rwy'n berffaith fodlon i wrando ar Aelodau o Gwm Garw mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau neu awgrymiadau ar gyfer yr ardal hon, o bosibl fel rhan o gynigion newydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

565. EITEM DADL CHWARTEROL - BLAENORIAETHAU ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD AR ÔL COVID

Agorwyd y ddadl gan yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio, a dybiai mai bwriad y ddadl, yn ôl pob tebyg, oedd cynnig cyngor i'r cabinet a swyddogion ar y blaenoriaethau sy'n effeithio ar addysg a chymorth i deuluoedd ledled y sir.

Mae'n debyg nad yw'n disodli gweithdrefn cyngor arall, megis cwestiynau i'r weithrediaeth. Yn yr un modd, nid yw'n disodli atgyfeiriadau fesul ward ychwaith.

Ar ôl clywed y ddadl, byddai'n crynhoi, ac yna'n gwahodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd i wneud sylwadau a gwneud rhai sylwadau i gloi.

Ar hyn o bryd, yn gyffredinol, mae ein blaenoriaethau lefel uchel fel a ganlyn:-

Byddwn (fel Cyngor):

- Yn parhau i ddatblygu strategaeth ôl-Covid ar gyfer pob ysgol yn y sir; yn adeiladu ar y dull "Tîm Pen-y-bont ar Ogwr" a fu'n gweithio'n dda cyn argyfwng y cyfnod clo a thrwy'i gydol

- Yn nodi'r gwersi a ddysgwyd mewn gwahanol feysydd polisi o'r sefyllfa bresennol hon yn ofalus, megis trefniadau ar gyfer gofal plant, defnyddio "hybiau", dysgu cyfunol, darpariaeth ar gyfer prydau ysgol am ddim, gwarchod, ac asesu mewnol ac allanol - gan y gellid defnyddio pob un ohonynt eto yn achos argyfwng arall tebyg yn y dyfodol.

- Yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff, i lywodraethwyr ac i aelodau lleol.

- Yn hyrwyddo lles corfforol ac emosiynol dysgwyr a staff.

- Yn cynnal a gwella'r safonau a enillodd adroddiad arolygu cadarnhaol gan Estyn cyn i Covid daro.

- Yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth integredig o ansawdd uchel, gan weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaid cyflenwi eraill i gefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf anghenus.

Dywedodd Aelodau yr hoffai ganolbwyntio ar y ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol a'r diffyg cyfle cyfartal a chydraddoldeb dewis i'r rhieni hynny a hoffai i'w plant gael mynediad i addysg Gymraeg.

Yn ei farn ef, mae dadl gref o blaid cael ysgol gynradd Gymraeg mewn tref o faint Pencoed, ac roedd yn meddwl tybed a fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno â'r uchelgais hirdymor hwn o ystyried y bwriad i ehangu'r dref yn y Cynllun Datblygu Lleol Drafft?

Fodd bynnag, o ystyried pa mor annhebygol fyddai hi i ysgol gynradd ymddangos o nunlle erbyn mis Medi, rwy'n cael deall bod adran 3.5 o'r Cod Derbyn i Ysgolion yn caniatáu i'r Cabinet lacio'r nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer disgyblion mewn ysgol benodol os oes cynnig i ehangu'r ysgol, fel sy'n wir yn Ysgol Bro Ogwr ym Mracla.

Ar ôl trafodaeth hir â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, dywedodd wrthyf nid yn unig y byddai hyn yn cystadlu â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar leihau maint dosbarthiadau i 30 o ddisgyblion neu lai, gyda cholled cyllid Llywodraeth Cymru o ganlyniad, ond gallai hefyd arwain at ysgolion eraill sy'n orlawn i ofyn am driniaeth debyg i ehangu capasiti. Rwy'n cydnabod anhawster y sefyllfa hon.

Fodd bynnag, erys y cwestiwn strategol cyffredinol o ran addysg Gymraeg yma yn nwyrain CBSP. Rwy'n cydnabod bod cludiant anstatudol am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ysgolion Cymraeg eraill, megis Merch o'r Sger yng Ngogledd Corneli, Calon y Cymoedd ym Metws, neu Ysgol Cynwyd Sant ym Maesteg, ond mae'r holl ysgolion hyn yng Ngorllewin y Sir, ble mae'r tegwch o ran darparu addysg Gymraeg i drigolion y Dwyrain? A ddylai rhieni ym Mhencoed orfod dewis rhwng anfon eu plant ifanc hyd at 12 milltir ar draws y sir neu anghofio am addysg Gymraeg a dewis addysg Saesneg yn ei le?

Felly, a wnaiff yr Aelod Cabinet gysylltu â Phennaeth Ysgol Bro Ogwr ac ailedrych ar yr awgrym y gall yr ysgol dderbyn mwy o blant yn ystod y cyfnod derbyn nesaf yn yr achos ynysig hwn?

Yn olaf, a oes achos hefyd i ddiffinio dalgylchoedd ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg yn CBSP? Er enghraifft, ar hyn o bryd, o ran dewis rhieni, mae gennym rieni o Fryncethin yn gwneud cais am le yn Ysgol Bro Ogwr er y byddai'n hawdd iddynt fynd i Galon y Cymoedd yn y Betws.

Yn yr achos hwn, mae'r polisi dewis rhieni mewn gwirionedd yn atal plant yn nwyrain y sir rhag cael mynediad i addysg Gymraeg yn eu hysgol agosaf, gan drymhau baich y gwasanaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, sydd eisoes dan bwysau mawr oherwydd bod plant o Bencoed yn gorfod teithio ar draws y Sir i gael mynediad i addysg Gymraeg.

Byddwn yn ddiolchgar iawn ar ran fy etholwyr ac eraill yn nwyrain y Sir pe gallai CBSP ailedrych ar y mater hwn ar frys.

Dywedodd Aelod ei fod yn yn falch iawn o gael y cyfle i gyfrannu at y ddadl amserol y prynhawn yma ac roedd am ganolbwyntio ar yr effaith cydraddoldeb ar ddysgu drwy'r pandemig a thu hwnt.

Roedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion aruthrol ein holl staff addysgu a chymorth mewn ysgolion ac yn yr awdurdod lleol dros y 15 mis diwethaf.

Gan ei fod yn briod ag athro ysgol uwchradd, roedd wedi cael cipolwg ar yr anawsterau a wynebir gan ysgolion a'r rhai sy'n gweithio ynddynt ac o'u cwmpas. Maent wedi ymateb i'r her, wedi'u haddasu i'r amgylchiadau anoddaf ac wedi blaenoriaethu ein dysgwyr dros bopeth arall. Roedd yn ymwybodol nad oes unman gwell gan athro nag o

flaen dysgwyr mewn ystafell ddosbarth, yn deall ac yn ystyried popeth sy'n digwydd o'u cwmpas mewn amgylchedd dysgu priodol.

Ar ddechrau'r pandemig, cyfeiriodd rhai gwleidyddion yn y DU at coronafeirws fel "y lefelydd mawr". Yn hytrach na lefelu unrhyw beth, mae wedi amlygu a gwaethygu'r anghydraddoldebau dwfn sydd wedi bodoli yn y wlad hon ers gormod o amser o lawer.

O safbwynt addysg, mae'n debyg iawn, ac mae'r anghydraddoldebau wedi'u hamlygu yno hefyd, boed yn broblemau gyda mynediad at adnoddau (gliniaduron a thabledi er enghraifft) ar y dechrau, neu fynediad at gysylltiad rhyngrwyd sefydlog; gallu rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu gartref, neu fethu â chanfod lle tawel ac addas i ddysgu. Yn olaf, i rai, nid yw'r amgylchedd cartref yn ddiogel hyd yn oed. Yn ogystal â hynny, mae hyd yn oed oedolion yn cael trafferth â'r cysyniad o gyfnod clo, heb sôn am geisio egluro'r cyfyngiadau ar fywyd arferol i ddysgwyr iau.

Gadewch i ni osod y stondin, ystyrir yn gyffredinol mai addysg yw prif yrrwr symudedd cymdeithasol yn y rhan fwyaf o'r byd. Ac, hoffi neu beidio, mae cysylltiad annatod rhwng lefelau incwm a chyrhaeddiad addysgol. Yn fras, po fwyaf yw lefel eich addysg, y mwyaf o gapasiti incwm sydd gennych. Ar waelod y raddfa honno, mae gennym deuluoedd a dysgwyr sydd yn gwbl anghenus oherwydd system les annheg a chymhleth iawn.

Mewn arolwg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd ymhlith dysgwyr yn gynharach eleni, dywedodd tua 61 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r datganiad eu bod yn "pryderu am ddyfodol eu haddysg neu gyfleoedd hyfforddiant o ganlyniad i COVID 19". Mae hwn yn ffigwr trawiadol, ac mae llawer iawn o hyder yn y system a'r sector wedi'i golli, a hynny drwy ddigwyddiad nad oedd unrhyw reolaeth drosto o gwbl.

MAe pob ymateb yn cynrychioli unigolyn â gobeithion a breuddwydion i gyflawni eu llwyddiannau eu hunain, ac mae'n amlwg fod gormod o bobl yn teimlo bod y gobeithion a'r breuddwydion hynny wedi mynd i'r gwynt.

Er ei fod yn croesawu'r cwricwlwm newydd yn gyffredinol, roedd yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y cyfle i oedi cyn ei gyflwyno er mwyn i ysgolion gael un flwyddyn lawn (gobeithiwn!) i adfer rhywfaint ar ôl y 15 mis diwethaf. Roedd hefyd am ddefnyddio'r cyfle hwn i dynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru, heb yr hype a'r hysteria gwleidyddol, wedi cael cyfle i wneud prydau ysgol am ddim yn fudd cyffredinol. Mae dysgwyr sy'n cael eu bwydo'n dda yn mynd ymlaen i gyflawni cymaint mwy. Er gwaethaf y pwyntio bysedd cyhuddgar sy'n digwydd bob ochr i Glawdd Offa, bydd dysgwyr yma yng Nghymru yn dal yn llwglyd.

Dymunai ddod â'i gyflwyniad i ben drwy gyhoeddi ple, un nad oedd ganddo amheuaeth sy'n cael ei gydnabod, ei ddeall ac un sydd, i ryw raddau mae'n debyg, eisoes ar y gweill yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Y ple hwnnw yw ein bod yn gweithio gyda staff ein hysgol ac yn eu cefnogi i'r eithaf trwy gymryd amser i ddeall newidiadau yn anghenion dysgwyr yn benodol. Ar ben cyflwyno a dysgu cwricwlwm newydd sbon yn raddol, mae hwn yn ofyniad enfawr ac, er y bydd rhai'n meddwl ei fod yn rhan annatod o'r gwaith, mae adeiladu darlun fel hyn yn cymryd amser ac ymdrech.

Efallai na fydd effaith gronnol bod o'r ystafell ddosbarth a'i holl gymorth ategol yn hysbys am gryn amser eto, felly mae staff addysgu a chymorth yn mynd i fod yn ymateb i hyn am amser maith.

Mae'n frwydr rhwng cael cenhedlaeth goll â phenderfynu unioni pethau. P'un a ydym yn sôn am y Cyfnod Sylfaen, neu Safon Uwch a phrentisiaethau, mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i adfer gobeithion a'r breuddwydion ein dysgwyr. Rhaid inni

ddangos, er y bu blip mawr ar y daith, y bydd y system a'r bobl sydd ynddi yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w helpu i gyrraedd y man maen nhw eisiau bod. Mae arnom ni hynny iddynt.

Cododd Aelod bryderon ynglŷn â diffyg mannau cynradd cyffredinol mewn ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol. Un enghraifft o hyn yw Ysgol Gynradd Coety, lle ellid derbyn 25 o blant y dalgylch i'r ysgol eleni, a 32 o blant yn yr un sefyllfa y llynedd. Eleni, mae hyn wedi cael effaith ganlyniadol mewn ysgolion eraill yn y cyffiniau, megis yn ysgolion Cynradd Llangrallo, Litchard, Penyfai a Phencoed. Mae'r holl ysgolion hyn hefyd yn llawn, felly mae plant yn cael eu gwrthod gan yr ysgolion hyn hefyd, oherwydd diffyg lle. Roedd hyn yn golygu bod teuluoedd gweld eu plant nid yn unig yn methu â chael eu derbyn i'w hysgol dewis cyntaf, ond eu hail ddewis ysgol hefyd. Mae hyn yn amlygu'r ffaith bod cymunedau cyflawn cyfagos yn datblygu bellach, lle na allai ysgolion ddarparu ar gyfer plant y teuluoedd a oedd yn byw yno. Golyga hyn bod plant yn cael eu hanfon i ffwrdd i wahanol ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol, a hynny yn eithaf pell o'u cartrefi teuluol ambell dro. Roedd ganddi bryderon sylweddol hefyd fod datblygwyr safleoedd yn dal i ymestyn eu datblygiadau tai ymhellach, a hynny er gwaetha fy ffaith bod ysgolion a adeiladir ar ystadau newydd yn rhy fach, a'u bod yn denu arian S106 ar gyfer lleoedd mewn ysgolion ond yn ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn hytrach nac i leddfu'r pwysau ar ysgolion lleol fel y bwriadwyd. Er bod cynlluniau i ddatrys y broses hon ni fyddent ar waith am flynyddoedd eto, felly roedd dyraniadau S106 bellach yn cael ei rhoi er mwyn adeiladu ysgol Gymraeg newydd, a'r canlyniad yw bod y lleoedd dros ben ar gyfer yr ysgolion cynradd llawn uchod yn cael eu dyrannu yn hen adeilad Bro Ogwr, ysgol na fydd yn cael ei gwblhau am rai blynyddoedd eto. Bydd yn rhaid i'r plant sy'n derbyn lleoedd yno yn y pen draw gerdded heibio i ddwy ysgol newydd ar y daith, ysgolion lle dylent fod wedi derbyn eu haddysg pe bai pethau wedi'u cynllunio'n fwy effeithiol. Ar ben hyn roedd y problemau parhaus gyda'r pandemig, yn peri pryder mawr, gan fod lles plant yn allweddol o ran eu cyraeddiadau addysg posibl wrth symud ymlaen. Felly roedd yn chwilio am sicrwydd gan yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, bod lles pobl ifanc wrth symud ymlaen yn cael ei ystyried fel rhywbeth hollbwysig, yn enwedig o ran derbyn addysg yn eu hysgolion dewisol, yn hytrach na bod y broses ymwneud ag arian neu ddarpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg. Teimlai fod angen edrych ar y darlun llawnach.

Yr oedd gan Aelod rywfaint o gydymdeimlad, o ran y ffaith mai eu cyllido yw'r unig beth y gallwn ei wneud mewn ysgolion, ac roedd hyn yn anodd gan fod gan blant yng Nghymru lawer llai o gyllid y pen o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr. Nid yw wastad yn syml i blant gael eu haddysgu yn eu hysgol ddewisol ychwaith, ac mae nifer o resymau dros hynny weithiau. Fodd bynnag, pe bai plant yn cael eu lleoli mewn ysgol sydd y tu hwnt i bellter penodol o ble'r oeddent yn byw, yn aml darparerir cludiant i fynd â hwy i'r ysgol ac yn ôl. Bob hyn a hyn byddai teuluoedd yn glanio mewn sefyllfa anodd o fod â phlant mewn gwahanol ysgolion, gan roi straen ar amser ac ymrwymiadau'r teuluoedd. Fodd bynnag, ystyriodd fod CBSP wedi gwneud yn dda iawn i gynnal prydau ysgol am ddim fel rhan o'r clwb brecwast yn ogystal ag amser cinio. Roedd prydau bwyd hefyd wedi'u dosbarthu i blant, gan gynnwys prydau wedi'u rhewi hefyd. Rhoddwyd prydau maethlon ac iach i'r plant, sy'n bwysig o ran eu hiechyd a'u lles. Yn wir, roedd Cynghorau eraill yn dechrau dilyn yr arweiniad yr Awdurdod ar hyn. Fodd bynnag, y prif faen tramgwydd, fel pob tro, yw diffyg adnoddau cyffredinol, adnoddau a rennir rhwng pob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol, boed yn rai ysgolion cynradd neu uwchradd, gan gynnwys ar gyfer eu cwricwla. Rydym yn parhau i fod mewn cyfnod digynsail, ond gobeithiai y byddai pethau'n gwella rywbryd o fewn y dyfodol.

Dywedodd Aelod fod 42 o erthyglau o Hawliau Plant fel y'u diffinnir gan y Cenhedloedd Unedig. Roedd hi am dynnu sylw at 5 ohonyn nhw.

ERTHYGL 1 Mae'r hawliau a nodir yng Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn berthnasol i bawb o dan 18 oed.

ERTHYGL 2 Mae'r hawliau'n berthnasol i bob plentyn beth bynnag fo'u hil, eu lliw, eu rhyw, eu hiaith, eu crefydd, eu hethnigrwydd, eu hanabledd neu unrhyw statws arall.

ERTHYGL 3 Ym mhob penderfyniad a cham gweithredu sy'n ymwneud â phlant, bydd buddiannau gorau'r plentyn yn ystyriaeth sylfaenol.

ERTHYGL 4 Rhaid i'r wladwriaeth wneud popeth o fewn ei gallu, drwy basio deddfwriaeth a chreu systemau gweinyddol, i hyrwyddo a diogelu hawliau plant

Ac ERTHYGL 23 Mae gan blant anabl yr hawl i fwynhau bywyd llawn, gydag urddas, ac i gael cymaint o ran ag sy’n bosibl yn eu cymuned. Dylai'r llywodraeth gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

Roedd hi'n falch bod ysgolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn cydnabyddiaeth am fod yn 'ysgolion sy'n cefnogi hawliau".  Yn wir, roedd yn falch bod yr awdurdod lleol hwn wastad wedi bod yn ddiwyd wrth sicrhau y clywir llais y plentyn pan fo newidiadau yn eu haddysg yn cael eu trafod.

Roedd hi hefyd wrth ei bodd gyda’r cynlluniau ar gyfer Ysgol Arbennig Heronsbridge ym Mhen-y-bont ar Ogwr.  Roedd yn cydnabod gwerth y math hwn o ddarpariaeth, gan nodi fod y gost o beidio â chael darpariaeth o'r fath yn drech na'r gost o'i darparu. Llongyfarchodd yr arweinyddiaeth, gan ddweud ei bod yn edrych ymlaen at gwblhad y gwaith, a hynny’n brydlon, o fewn y gyllideb, a chyda'r capasiti sy’n bodloni bwrdeistref sy'n tyfu.

Mae 4 prif dref yn y Fwrdeistref Sirol.  Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, Maesteg a Phencoed.

Roedd hi'n dal yn siomedig bod diffyg uned AAA yng nghlwstwr Porthcawl o hyd. Os bydd y CDLl yn cael sêl bendith gan ei Chyd-gynghorwyr er mwyn meithrin twf ym Mhorthcawl, bydd plant na chant le mewn ysgolion ym Mhorthcawl.  Rhaid i bob plentyn sydd ag anawsterau dysgu cymedrol (MLD) neu anabledd synhwyraidd, gan gynnwys awtistiaeth, nad ydynt yn gallu dysgu mewn dosbarth prif ffrwd, gael tacsi allan o'r dref, ar draul trethdalwyr, i dderbyn eu haddysg mewn tref arall, oddi wrth unrhyw ffrindiau lleol y gallent feithrin, oddi wrth frodyr a chwiorydd, a chan atal rhieni rhag meithrin perthynas â'r athro dosbarth a'r ysgol yn ehangach. Mewn geiriau eraill, y tu allan i’w cymuned.

Nid oedd yn cyfeirio at y plant sydd â chymaint o anghenion fel bod angen darpariaeth ganolog arbenigol ysgol fel Heronsbridge.

Roedd yn cyfeirio at y plant a fyddai'n mynychu un o'r unedau Obs a dosbarthiadau MLD ar draws y Fwrdeistref.

Ysgolion gwych, lle mae pethau gwych wedi digwydd gyda phlant â rhieni sydd wedi clywed y geiriau "dydw i ddim yn gwybod" fel prognosis clinigol yn rhy aml.

Nid oes gan Borthcawl, tref sy'n tyfu, un dosbarth MLD nac un Uned Obs.

Unwaith eto, roedd yn cydymdeimlo'n â’r mater bod ysgolion, i bob pwrpas, yn sefydliadau annibynnol, ond mae hynny yn rhywbeth y gall yr awdurdod lleol effeithio arnynt, dylanwadu arnynt, a’u harwain mewn newid.

Gan ddychwelyd at hawliau’r plentyn y Cenhedloedd Unedig.

Mae gan blant anabl yr hawl i fwynhau bywyd llawn, gydag urddas, ac i gael cymaint o ran ag sy'n bosibl 'yn eu cymuned.' Dylai'r llywodraeth gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

Dylai'r llywodraeth leol gefnogi'r plant hyn, lle bo'n bosibl, i gael eu haddysgu 'yn eu cymuned' ac i arwain newid sy'n gynhwysol ac yn anwahaniaethol.

Yn ei grynodeb, cynghorodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio am flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau Pen-y-bont ar Ogwr, fel a ganlyn.

**PEN-Y-BONT AR OGWR**

Wrth i addysg a chymorth i deuluoedd barhau y tu hwnt i'r argyfwng presennol, bydd y polisïau a'r prosiectau canlynol yn cael eu blaenoriaethu (nid o reidrwydd yn y drefn hon).

Bydd CBSP yn:

- Adeiladu ysgolion cynradd 21ain ganrif newydd yng Ngogledd Corneli, Mynydd Cynffig, a Phorthcawl, gan gynnwys ysgol Gymraeg newydd yng Nghorneli, ac ysgol gynradd Gymraeg "egin" ym Mhorthcawl.
- Buddsoddi mewn darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ychwanegol ym Mracla.
- Darparu ysgol newydd yn lle Ysgol Heronsbridge, gyda'r nod o greu'r ysgol arbennig orau yng Nghymru.
- Parhau i ddarparu addysg feithrin ledled y sir sydd uwchlaw lefelau statudol.
- Sicrhau bod chweched dosbarth ym mhob ysgol uwchradd, a bod dull 21ain Ganrif cydweithredol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod dosbarthiadau'n hyfyw, a hynny trwy ddysgu cyfunol a gefnogir gan ddosbarthiad gliniaduron i bob dysgwr ôl-16 yn ein hysgolion.
- Ymchwilio i'r potensial ar gyfer "cerdyn teithio" traws-sirol ar gyfer pob dysgwr ôl-16.
- Parhau yn ein partneriaethau â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr a darparwyr ôl-16 eraill, gan gynnwys y ddarpariaeth ôl-16 a rennir gydag Ysgol Gyfun Pencoed yng Ngholeg Pen-y-bont.
- Yn dilyn proses ymgynghori gadarnhaol, parhau â uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, a rhoi sbardun iddo mewn partneriaeth â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr drwy hwyluso'r broses o symud y Coleg o Cowbridge Road i gampws newydd sbon yng nghanol y dref ar safle Gorsaf Heddlu Cheapside.
- Datblygu ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'n strategaeth cymorth cynnar i sicrhau fod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu gan y bobl gywir, ar yr adeg gywir, i'r rhai sydd ei angen.

**YN GENEDLAETHOL**

Bydd CBSP yn parhau i gymryd rhan gadarnhaol mewn trafodaethau cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth y DU, CLlLC, Consortiwm Canolbarth y De, a chyrff rhanbarthol eraill.

Byddwn yn parhau i ymwneud yn weithredol â materion addysgol ehangach, megis:

- Diwygio'r cwricwlwm i sicrhau bod holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu profiadau dysgu rhagorol i bob disgybl.
- Arholiadau lle roddir llawer yn y fantol a gwaith cwrs a asesir yn fewnol (asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu), gan gynnwys y rôl y mae TGAU yn ei chwarae mewn byd lle na fydd myfyrwyr yn gadael addysg yn 16 oed.
- Problem hirsefydlog astudiaethau galwedigaethol a'u parch cydradd â rhaglenni academaidd.
- Diwygio ADY drwy barhau i ymrwymo'n llawn ac yn frwd i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol ym Mhen-y-bont ar Ogwr gael y cymorth gorau posibl.
- Uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Gofal plant ac addysg i'n dysgwyr ieuengaf.
- Dalgylchoedd a dewis rhieni o ran derbyniadau i ysgolion.
- Cyllidebau ysgolion a chyllid cyffredinol gwasanaethau llywodraeth leol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod y llynedd wedi bod yn flwyddyn unigryw a heriol dros ben, gyda Covid-19 wedi cael effaith andwyol iawn ar ddysgwyr a staff addysg. Pwysleisiodd fodd bynnag fod Swyddogion wedi gweithio'n ddiflino dros yr 16 mis diwethaf i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd enghraifft o'r ymrwymiad hwn i'w weld yn y cyfarfod yma, lle'r oedd holl uwch dîm Arweinyddiaeth yn bresennol i gefnogi'r ddadl, yn ogystal â'r tîm arweinyddiaeth o Gonsortiwm Canol y De (CSC). Dywedodd ei fod yn ddyledus i'r Aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn ac am eu cyfraniad at y ddadl heddiw.

Mewn perthynas â rhai o'r pwyntiau a wnaed gan yr Aelodau, dywedodd fel a ganlyn.

Roedd gofyniad statudol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac mae'n allweddol ein bod yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Roedd heriau o ran cyflwyno hyn, yn enwedig yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol. Roedd cynigion strategol mewn perthynas â'r amcan hwn i fod i gael eu cyflwyno ym mis Ionawr, a'r adeg honno byddai'r awdurdod lleol yn nodi ei gynllun ar sut y dylid ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol cyn belled ag y bo modd, o ran darparu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion mewn gwahanol leoliadau.

Roeddem hefyd angen dysgu gwersi o'r pandemig wrth i ni symud ymlaen, a chytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd â sylwadau blaenorol gan yr Aelodau bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar les corfforol ac emosiynol dysgwyr wrth symud ymlaen, gan gynnwys yr heriau sy'n ein hwynebu o ran derbyniadau i ysgolion a lleoedd mewn ysgolion. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar y ffordd

orau o gyfarfod ac ymdrechu i oresgyn heriau o'r fath. Pan fo ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu, maent yn dod â’u heriau eu hunain, hyd nes y byddant wedi'u cwblhau. Mae enghreifftiau o'r rhain wedi'u rhannu heddiw fel rhan o'r ddadl. Ychwanegodd y byddai'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ddysgwyr a'u hanghenion, a byddwn yn ymroddgar dros hynny tra bod ysgolion newydd yn mynd drwy'r broses adeiladu.

Amlygwyd rhai materion allweddol hefyd gan Aelod blaenorol, ac un ohonynt oedd ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r pum maes y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y ddadl. Roedd gan yr Awdurdod uchelgais i sicrhau mai'r Ysgol Arbennig newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr fyddai'r orau yng Nghymru. Mae’n bwysig iawn sefydlu darpariaeth leol, yn enwedig i'r plant hynny ag anghenion dysgu, fel eu bod yn gallu osgoi teithiau tacsi hir i ysgolion y tu allan i'w hardal lael, rhybweth a allai fod yn heriol iddynt o ran eu lles. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf edrychwyd ar welliannau i'r perwyl hwn, drwy ddatblygu ysgolion mwy arbenigol, ac mewn dosbarthiadau, i oresgyn yr heriau uchod a mwy, i ddarparu ar gyfer anghenion yr unigolion ifanc hyn. Yn olaf, ychwanegodd pa mor bwysig oedd cyllid i ysgolion, yn enwedig ym meysydd y cwricwlwm a Diwygio ADY.

Yn olaf, rhoddodd Rheolwr Gyfarwyddwr CSC sicrwydd i'r Aelodau y byddai CSC yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddogion Addysg yn CBSP, er mwyn sicrhau bod gan bob ysgol ar draws y Fwrdeistref Sirol ddarpariaethau o’r ansawdd gorau posibl ar gyfer ei phlant a'i phobl ifanc. Byddai'r cwricwlwm newydd yn rhoi llawer iawn o straen ar ysgolion a'i staff, felly roedd yn eithriadol o bwysig sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ymdopi â heriau hyn. Sicrhaodd y byddai CSC yn gweithio gyda phob ysgol er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.

566. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:30